i gadw llwyd wýbodaeth.  
7 Gobeithio 'n Nuw, cofio ei waith,  
y sydd mal rhaith eneidiol :  
1 Gael cadw ei orchymmyn,  
rhoes Duw'r wers hyn yn rheidiol.  
8 Rhag ofn myn'd o'r genhedaeth hyn  
yn gyndyn ac anfydd :  
A cholyn wan ac yfbyrd gwael,  
heb afael gyd â'u llywydd.  
9 Eu tadau, fel plant Ephraim,  
yn artog lym er iaethu,  
Troifant eu cefnau ym gâd,  
ymroi a dadannelu.  
10 Cyfammod Duw a wrthodent,  
ni rodient yn ei Gyfraith,  
11 Anghofio 'i wyrth a welfent gynt,  
a'i ddeddfau oedd yn berffaith.  
12 Yn nhir yr Aipht, ym maes Soan,  
gwnaeth Duw gyflaen fwyfwy:  
13 Rhoi dwfr y môr yn ddau dwr crûch,  
a'r llawr yn lîch i drammwyr.  
14 Y dýdd mewn niwl, y nôs a thân,  
tywyliol lân ei bobloedd :

15 Holldi'r creigiau a'u troi'n llynniau,  
a llenwi ei lu a dyfroedd.  
16 Er tynnu dwfr o'r garreg lâs,  
er llithro'n loyw fras ffrydau :  
17 Yn yr anialwch digient Dduw,  
'chwanegent amryw feiau;  
18 Yn y diffeithwch profent Dduw,  
Oes fywyd i fyw? meddylient :  
19 A all Duw gael in' yma fywyd  
mewn cyfryw lochwyd? d'wedent.  
20 Er taro'r graig a rhedeg dŵ'r  
yn ffrydau, cyflwr diball:  
A eill ef roi in' fara a chig,  
i'n cadw yn ddiddig ddiwall?  
21 Pan glybu Duw yr araih hon,  
fel tân yn wrechion 'nynnodd,  
Yn Iago ac yn Ifraél,  
gan lid yn uchel digiodd.  
22 A'i ddig oedd am na chredent hwy,  
i Dduw a'i fwyfwy fawredd,  
Ac na welent pa iechyd oedd  
yn ei weithredoedd rhyfedd.  
23 Gorhymmyn wybren, a'i gwarhau,  
egor y dryfau'r nefoedd :  
24 A Manna 'i fywyd, fel gwenith nêf,  
a wlawiodd ef i'w luoedd.  
25 Rhoi i ddŷn gael rhyw luniaeth da,  
sef b'r a yr Angylion :  
26 Gyrru rhŷd wybren ddwyrein-wŷnt,  
gyd a'r deheu-wynt nerthlon.  
27 Fel y llwch y rhoes gîg i'w hél,  
ac adar fel y tywod :  
28 Ynghylch eu gwerfyll a'u trigfydd,  
y gwlawiai beunydd gawod.  
29 Bwyta digon o wlêdd ddiwael,  
a chael eu bwyd dynunol :  
30 Ac heb ommedd dim ar eu blîs,  
nac mo'u hewyllys cnaudol.  
31 A'u tammeidiau hwy i'w safnau  
(ys ofnwn y Goruchaf:)  
Yn Ifraél laddodd i'w ddig  
wyr etholedig brasaf.  
32 Er hyn pechent, ac ni chredent  
hwy, i'w iâch radau rhyfedd :  
33 Treuliodd Duw eu hoes hwy am hyn,  
mewn dychrynn ac oferedd.  
34 Tra fyddai Duw yn eu llâdd hwy,  
o's cofient dramwy atto:  
O's doen trwy hiraeth at ei râs,  
yn fore glâs i'w geisio.  
35 O's cofient fod Duw i'w holl hynt,  
graig iddynt a gwareddydd :  
36 (Er ceisio siommi Duw'n y daith,  
a'u gwenniaith, ac a'u celwydd :  
37 Er nad oedd eu calon yn iawn,  
na ffyddlawn i'w gyfammod :)  
38 Er hyn trugarhâi Duw o'r nêf,  
a'i nodded et oedd barod.  
Rhag eu difa, o'i lid y trees,  
ac ni chyffroes i'w hartaith :  
39 Cofiodd ddŷn, o's marw a wnâi,  
na's gallai ddychwel ei waith.  
40 Pa fawl gwaith y cyffroisant hwy  
wrth fyned trwy'r anialwch ?  
Gan ddigio Duw a'i lwyd driftâu,  
yngreigiau y diffeithwch.  
41 Troifant, profasant Dduw a'u chwânt,  
gan demio Sant yr Israel,  
42 Anghofio eu cadw hwynt fal hyn,  
rhag cael o'u casddydd afael.  
43 Rhoisai'n yr Aipht arwydd o'i râs,  
a'i wyrth yn ninas Soan.

S A L M LXXXIX.

44 Y mōdd y troes eu dŵr yn waed,  
ni chaed dim glân-ddwyr allan.  
45 Rhoes Duw yngwlâd yr Aipht i'w plau,  
waed, gwybed, llau, a llyffaint:  
46 Lindys, locuit, i ddilâ'r ffrwyth,  
a chenlysg lwyth, a mall-haint.  
47 Distrywiodd Duw eu hŷd, gwêlît, gwŷdd  
48 Eu coedydd, a'u han'feiliaid:  
A chenlysg cefnair, mîlît a roes,  
bu wrth eu heinioes danbaid.  
49 Rhoes arnynt bwys ei lîd, a'i fâr  
ac ing anghreugar diglon:  
Ffrwyth ei lidiowgrwydd ef, a'i wâg,  
anfonodd ddrwg angylion.  
50 Rhyw ffordd a hon i'w lîd a droes  
heb ludd i'w heinioes angau,  
Ond dwyn eu bywyd hwy trwy haint,  
yn ei ddigofaint yntau.  
51 Yna tarawodd un Duw Nâf  
y plant cyntaf-anedig:  
Yn nhîr yr Aipht, a phêbyll Cam,  
sef am ei fod yn llawnndig.  
52 Ond (gan droi at ei bobl yn hawdd,  
fo'u t'wysfawd trwy'r anial-fan,  
Fel arwain defaid, lwybrau pell,  
yn wael ddiadell lechan.  
53 Arweiniodd hwynt-hwy yn ddiofn,  
trwy'r môr (ffordd ddfon) heb wlychu;  
A'i holl elynion heb fwy'r stôr,  
fe wnaeth i'r môr eu llyngcu.  
54 Rhoes hwy i etifeddu'n rhudd,  
ym mynydd ei sancteiddrwydd:  
Yr hwn a ddarfu ei warhâu,  
a llaw ddeau yr Arglywyd.  
55 Rhoes ef y wlâd i ddwyn pob ffrwyth,  
rhos i bob llwyth ei gyiran  
O Israël, ac yn eu plaid,  
rhoi'r hén drigolaid allan.  
56 Er hyn temtient, a digient Dduw  
twn unig yw sancteiddiol:  
Ac ni fynnynt mo'r usfudhâu,  
i'w dystiolaethau nefol.  
57 Ond myn'd ar gîl ac ymlaccâu,  
fel eu holl dadau twyll-naws:  
Megis bŵa a fai mewn cäd,  
ac ynddo dafliad gŵydraws.  
58 Hwynt-hwy yn fynych a'i cyffroent,  
mewn camwedd troent oddiwrtho  
At wylfa nôs, a delw o bren;  
fai hyn y digien' efo.  
59 Ond y Gorucha'n gweled hyn,  
a ddigiodd wrthyn' hwythau:  
Felly dirmygodd Israël,  
a gadel ei ammodau.  
60 Yna'r ymadwodd efô,  
a chyflegr Silo dirion:  
Ei bebbyl a'i brif ysgol ddîsg,  
lle b'afai 'mîsg ei ddyrion.  
61 Ei nerth a roes i garchar caeth,  
dan elyn daeth eu mawredd:  
62 Ei bobl ei hun i'r cleddau llym,  
(fâl dyna rym ei 'ddigedd:)  
63 Ei wîr ieuangic fo'u rhoes i'r tân,  
gwîryfon glân rhoes heibio:  
64 Ei offeiriad i'r cleddyf glâs,  
a'i weddw ni chafas. wyo.  
65 Yr Arglywyd gwedi hyn deffroe,  
fal un a ddoe o gyfgru:  
Neu fal gŵr cadarn wedi gwîn,  
yn erwin i'w dychrynu.  
66 Taflodd y gelyn yn ei ôl,  
rhos mewna tragwyddol w'r adwydd.

67 Rhos wîryon Joseph dan un pwyth,  
ac Ephraim lwyth i dramgydd,  
68 Gwedi cwlio y rhai'n i gyd,  
fo roes ei fryd ar Juda:  
Ar fynydd Seion (ei dreftâd)  
o gariad i'w breswylfa.  
69 Yna yr adeiladodd ef  
adeilad grêf a hawddgar,  
Yn gyflegr-lys byth i barhâu,  
fel hén feiliadau'r ddear.  
70 Etholodd ef Ddafydd ei wâs,  
yr hwn oedd ddfifas fugail:  
Ac a'i dûg ef i'r maes yn lân,  
o'i gorlan a'i ddefeid-gail:  
71 O borthi defaid mammau wîyn,  
i'w ddwŷn i borthi dynion:  
Iagof, ac Israël, a'u plant,  
dyna ei feddiant ffyddlon.  
72 Yntau a'u porthodd hwynt yn ôl  
ei berffaith reiol galon:  
Ac a'u trinodd hwy yn brydferth,  
o nerth ei ddwylaw cyfion.

S A L M LXXXIX.

1 Lawer cenedl (O Dduw) a ddaeth  
i'w etifeddiaeth unig:  
Rhoed Caerfalem a'i chyflegr hi,  
yn garnoddi o gerig.  
2 Rhoi cyrph dy weision, wrth eu rhaid  
i'w hedaid y flurfaen:  
T'neiliaid maes rhoi cîg dy saint,  
fel dyma fraint afaewan.  
3 Fel ffrydiau dwfr tywallt a wnaed,  
eu gwaed o amgylch dinas  
Caerfalem, heb roi corph mewn bêdd,  
fel dyna ddiwedd atgas.  
4 Yn ddîrmyg, gw'r adwydd, ac yn warth,  
i bawb o'n pob parth ydym.  
5 O Dduw pa hŷd? wyt byth yn ddig?  
ai fel tân ffyrnig poethym?  
6 Tywallt dy lîd ar bobl estron,  
rhai nid adwaenon' m' onot:  
Ac ar d'yrnafodd ni eilw,  
(Dduw) ar dy enw hynod.  
7 Can's wîryon Iagof, (bobl oedd gu)  
y maent i'w hysu 'n rhŷfedd:  
Ac a wnaethant i'r rheini'n fod  
preswylfod anghyfannedd.  
8 Na chofia'n camwedd gynt i'n hoes,  
Dduw, bryfia, moes drugaredd:  
Dy noddod a'n rhagflaeno ni  
fy mewn trueni'n gorwedd.  
9 O Dduw ein hiechyd, cymorth ni,  
er mwyn dy tri gogonol:  
A gwared er mwyn dy enw tau,  
ni rhag pechodaun marwol.  
10 Pan y gofynnant p'le mae'n Dduw,  
dod arnynt amryw ffônnoedd:  
I ddil gwaed dy ddwyfol blant,  
ac yno càn hwy' wîbod.  
11 Dduw, doed ochenaid ger dy fron  
dy garcharorion rhŷgaeth:  
Ac yn dy ddirfawr ogoniant,  
ymddiffyn blant marwolaeth.  
12 Ein cym'dogion a' th gabloddi di,  
tâl i'r rheini yn gwblol  
Eu cabledd i'w mynwefau i hun,  
O Arglywyd gûn gorchesol,  
13 Ninnau dy bobl a' th ddefaid mân,  
a wnaawn it' gân ogonawl,  
O oes i oes byth i barhâu,  
at i'th fawrhâu 'n dragwyddawl.

S A L M

SALM LXXX.

C Lyw di fugail i Israël,  
C sy'n arwain fel y defaid  
Hil Iago, a llewyrcha di,  
a 'fsteddi ar Gerubiaid.  
2 Fel y gwelo Ephraim hyn,  
Benjamin a Manasses:  
Cyfod, cymorth a gwared ni,  
o'th fawr ddaioni cynnes.  
3 Llewyrcha d'wyneb, dychwel ni,  
Duw, di a'n cedwi'n gyflym:  
4 Duw y lluoedd, clyw ein gweddi,  
pa hŷd y forri wrthym?  
5 Llewa' u bara, trwy wyllo 'n dôst  
a wnaethoſt di i'r eiddod:  
A rhoi iddynt dagrau bob awr,  
trwy fesur mawr yn ddiod.  
6 Duw, i'n gelynion o bob parth  
rhoiſt ni yn warth i'n gwatwar:  
7 Llewyrcha d'wyneb, dychwel ni,  
felly y'n cedwi'n gynnau.  
8 Dygaſt o'r Aipht winwydden ūr,  
rhoiſt iddi dir i dyfu:  
A'r holl genhedloedd o bob mân,  
troiſt allan cyn ei phlannu.  
9 Arloefait y tir o'i blaen hi,  
a pheraift iddi wreiddio:  
10 Llanwodd, cuddiodd bob bryn a llawr,  
fel cedrwydd mawr yn brigo.  
11 A'i hiraidd frig ystyn yr oedd  
hyd foroedd ac afonydd:  
12 Pa'm y rhwyaſit gae'r fath bêr Iwlyn  
i bawb i ddwyn ei ffiwythydd?  
Pawb ai heibio 'n tynnu ei grawn,  
pan oedd hi'n llawn ffrwyth arni:  
13 A'r baedd o'r coed yn turio 'r llawr,  
a'r bwyſfil mawr i'w phori.  
14 O Dduw y lluoedd, edrych, gwêl,  
a dychwel i ymg'leddu  
Y wîllan hon a blennaift di,  
â'th law, a'i rhoddi 'dyfu.  
15 Lle cadarnhêit i ti dy hun,  
dy brif blanhigyn dedwyd:  
16 Llygrwyd a'r clêdd, a'r tân yn faith,  
a hyn o waith dy gerydd:  
17 I gryfhau gŵr dy ddehau-law,  
boed droſtaw dy fraich nerthol:  
Hwn a sicrhêit i ti dy hun,  
sef dros fâb dŷn dewiſol,  
18 Tros hwn tra' rhoddych di dy law,  
oddiwrthau ni ddychwelwn:  
O Dduw, dadebra, bywhâ ni,  
ar d'enw di y galwn.  
19 A dadymchwel nyni i fyw,  
O Arglywydd Dduw y lluoedd.  
Tywyna arnom d' wyneb pryd,  
ni a gawn iechyd bythoedd.

SALM LXXXI.

O Cenwch fawl i Dduw ein nerth,  
cerdd bryderth cewch iddo:  
A llafar lais, a genau ffræth,  
gerddwriaeth i Dduw Iago.  
2 Cymerwch gath y fallwyr lân,  
a moeswch dympa hafydf:  
A cheifiwch ganu gyd â hyn,  
y nabl a'r delyn hyfryd.  
3 Cenwch udcyrrn ar loer newydd,  
y pryd fydd nodol iddo:  
4 Set deddf yw hon ar wyl uchel,  
Dduw Israël a Iago.

5 Yn Joseph c'lymmodd hyn yn ddŷsg,  
pan ddaeth o fyſg yr Aiphtwyr:  
Lle clywais iaith oedd dd'ieithr im',  
heb ddeall dim o'i hystyr.  
6 D'wedodd fy Nuw, Trwy nerth fy mraich  
tynnaſiſ faich eich yſgwyddau,  
Ac felly tynnaſiſ eich dwy law,  
i' madaw a'r fſwrneſiau.  
7 I'r flunder gelwaſt arnaf fi,  
gwaredaiſ di ſut yma:  
Wrth lais taran fy mhraſiad oedd,  
ynglân dyfroedd Meriba.  
8 Fy mholb Iſraël gwando fi,  
o's yſtyri yn fyddlon:  
9 Na fid ynot arall yn Dduw,  
na chrymma i gaudduw eſtron.  
10 Myfi yr Arglywydd Dduw a'th ddûg  
o'r Aipht-dir caddug allan:  
Llanwaf dy ſol heb ddiffig dafn,  
lleda dy ſafn yn llydan.  
11 Ni choelaiſ Iſrael fy rhybudd,  
ni fyddent uſudd ymy:  
12 Gollyngais hwynt i'w ffyrrd eu hun,  
i'w cyngor cyndyn hynny.  
13 Och na wrandawſai Iſraël,  
gan rodio 'n flêl fy llwybrau:  
14 A phwys fy llaw llethafwn fron  
eu holl elyriſion hwythau.  
15 Caseion ein Duw, yn ei lid,  
a oſyngteſt iddaw.  
Ac ef a roſai yn y tir  
ammodau hir i'r eiddaw.  
16 Ein Duw a roſai iddynt borth,  
trwy fraſder cymorth rhadol:  
Rhoi mîl o'r graig, rhoi llaeth yn fîth,  
a gwenith yn ddigonol.

SALM LXXXII.

H Oll farnwyr bŷd mae Duv'n eu myſg,  
Duv yw ym myſg y duwiau mân,  
a'i farn y lân heb wyro.  
2 Pa hŷd y rhoddwch farn ar dro,  
gan bleidio gyd a'r trawfion?  
3 I'r tlawd, ymddifad, rheidus trŵch,  
pa ham na fernwch union?  
4 Gwrandêwch chwi ar y gwân a'r gwael,  
a'r tlawd heb gael mo'i gyfraid:  
(Pan ddêl y rheini gar eich bron)  
o ddwylaw'i trawfion diriaid.  
5 Gwyr heb wybod heb ddeall chwaith  
fy'n rhodio taith tywyllni:  
Ni syfient hwy, pe ſiglai'ng'hŷd,  
yr hollfyd a'i ſylfeini.  
6 D'wedais mai duwiau ſych yn ſiŵr,  
a phlant i'r Gŵr goruchaf:  
7 Er hyn mal dŷn marw a wñewch,  
un gwypm a gewch â'ch hynaf.  
8 Duw, cyfod, a dyro farn ar  
y ddaear a'i thyrnaſoedd:  
Can's mawr yw d'etifeddiaeth, ti  
a feddi'r holl genhedloedd.

SALM LXXXIII.

N A oſtega, na thâw, na fydd  
di lonydd, Duw y lluoedd:  
2 Wele, d'elyniſion yn cryfhau,  
gan godi 'pennau i'r nefoedd.  
3 Ymgyfrinachu dichell yn',  
y lle mae ganthyn' fwriad,  
A dychymygu diben brudd,  
I ni fy'n ymgudd danad.

† C 2

4 D'wed.

SALM LXXXIV, LXXXV, LXXXVI.

4 D'wedasant, Dewch, difethwn hwynt na byddo honyt gened: Ac na byddo byth (meddant hwy) am Israel mwy mo'r chwedl.  
 5 Ymgynghorasant bawb ynglyd, ac yn un fwyd i'th erbyn,  
 6 Edom, Ismael, Moab blaidd, a'r holl Hagariaid cyndyn.  
 7 Gebal, Ammon, Amaleciaid, Philistiaid a gwyr Tyrus:  
 8 Assur, yn gyd-fraich â phlant Lot, fal dyna gnor maleisus.  
 9 Tâl dithau adref yn y mân, megis i Madian greulon,  
 10 Sifera, ne'i Jabin swrth, a laddwyd withi lan Cilon.  
 11 Yn Endor gynt bu laddfa fawr, ar hyd y llawr ar waigar: Gwnâ honyn hwythau laddfa ail, a'u cyrph yn dail i'r ddaear.  
 12 Gofod eu bennedd hwy fel Zeb, ac Oreb yr un diwedd: A'u tywyfogion fel Zeba, a Salmurna i orwedd.  
 13 D'wedent y mynnent yn eu byw gysflegrfa Duw i'w meddiant:  
 14 Fel troad rhôd, neu wîl mewn gwînt, dyna yr hynt a gaffant.  
 15 Fal y llîg y tan bôb pren erin, a'r fflam yr eithin mynydd;  
 16 Felly â th'ifrom, ymlid hwy'n gynt nâ dychryn corwyt efrydd.  
 17 Llanw eu tâl o warth a chwŷs, ceisiant ar frys yr Arglwydd.  
 18 Ac yn drag wyddol iddynt bydd, gywilydd, mefl, a gw'r adwydd.  
 19 Difether hwynt: gwyped dŷn byw mai d' enw di yw Jehofa: Ac mai ti unig Dduw sydd ar y ddaear yn orucha'.

SALM LXXXIV.

D Y babell di mîr hyfryd yw (O Arglwydd byw y lluoedd.)  
 2 Mynych chwennychais weled hon, rhag mîr dra-thirion ydoedd. Mae f' enaid i (fy lôn) mewn blîs, i'th gysflegr lîs duedd: Fy nghalon i a'm holl gnawd yw, yn Nuw byw'n gorfoedd.  
 3 Aderyn-y to casodd dŷ, a'wennol frî i'w chywion Le wîth dy allor di i'w trîn, fy Nuw a'm brenhin tririon.  
 4 Gwîn ei syd a drig yn dy dŷ, caiff dy foliannu ddiglon: 5 Ac ynot ti sy'n cadarnhâu, a'th lwybrau yn eu calon.  
 6 Pe rhon a gorsod ar y rhai'n rhîyd glîn wylfain dramwy: Gofedant ffynnon iddyn nhw, a'r gwlâw a leinw fwyfawy.  
 7 Ant rhagdydd bawb, o nerth i nerth, nes cael yn brydferth ddyfod: Ymddangos i Dduw gar ei frôn, Yn Seion ei brefwylfod.  
 8 Arglwydd Dduw y lluoedd, clyw fi, a'm gweddi, O Dduw Jagof:  
 9 Gwîl wîneb d'eneiniog, a'i fîstâd, Duw'n tarian n'âd fi'n anghof.  
 10 Gwell yw nâ mil, un dîed i'th dŷ, am hynny rawy dewisol.

Im' fod ar riniog y drws tau, nâ phlasau yr annuwiol.  
 11 Sef, haul a tharian yw Duw mât, a rydd râd a gogoniant: Ni leitar ef ddaioni maith, i'r rhai a berfaith rodiant.  
 12 O Argwydd Dduw y lluoedd mawr, anfon i lawr dy gymmod: Dedwyd yw'r dŷn a rotho'i grêd, a'i holl ymddiried ynod.

SALM LXXXV.

D A wyt i'th dir (Jehovah Nêr) dychwelaist gaethder Iago: 2 Maddeuaist drawedd dy bobl di, mae'u camwedd wedi 'guddio. 3 Tynnaist dy lid oddiarom ni, troist dy ddiglloni awchlym. 4 O Dduw ein nôrth, tro ninnau'n well, a'th lid bid bell oddiwrthym.  
 5 Ai byth y digi wrthym ni? a forri di hyd ddiwedd;  
 6 A safid dy lid o oes i oes? Duw, gwrando, moes drugaredd.  
 7 Pa'm? oni throi di a'n bywâu, a llawenhâu yr eiddod?  
 8 O dangos in' dy nawdd mewn pryd, felly cawn iechyd ynod.  
 9 Beth a ddywaid Duw am danaf, mi a wrandawaf hynny:  
 10 Fe draetha hêdd i'w bobl, a'i Saint, rhag troi ym mraint ynfydu.  
 11 I'r rhai a ofnant Arglwydd nêf, mae i' iechyd ef yn agos:  
 12 Felly y caiff gogoniant hir, o fewn ein tir ni aros.  
 13 Ei drugaredd, a'i wirionedd, ar unrwaith cyfaruant;  
 14 Ei uniondeb, a'i hêdd ynglyd, trwy'r tir a'mgîd-gufanant.  
 15 Gwirionedd o'r ddaear a dardd, uniondeb chwardd o'r netoedd:  
 16 Duw a ddenfyn in' ddaioni, a'n tir i roddi cnydoedd.  
 17 Uniondeb oedd o flaen Duw nêf, a'r cyfion ef aed rhagddo:  
 18 A Duw a rodia yn ei waith, fel i'r un daith ag efo.

SALM LXXXVI.

G Ostwng, O Arglwydd, y glust dau, clyw fy ngweddiau trymion: Gwrando fi fy druan a thlawd, o'th barawd drugareddion.  
 2 Cadw fy oes, gŵr cynnwys wy', ac iti'r ydwy'n credu:  
 3 Duw, bydd achubwr da i'th wâs, o'th râs tyr'd i'm gwaredu.  
 4 Trugarhâ wrthys Arglwydd mât, can's arnald llefa'n ddibaid:  
 5 Einoes dy wâs, Duw, llawenhâu, can's attad coda', f' enaid:  
 6 Can's ti, O Arglwydd, ydwyd dda i'th bobloedd a thrugarog,  
 7 I'r rhai a alwant arnat ti, mae dy ddaioni'n bleidiog.  
 8 O Arglwydd, clyw fy llais mîr llym, a'm gweddi y'm myfyrdod:  
 9 Clywi fy llais, gweli fy nghlwyf, y dîed y bwyt i'm traillod.

S A L M LXXXVII, LXXXVIII, LXXXIX.

3 Ym mysg y duwiau nid oes un,  
     fel dydi, gun gogoned;  
 Ym mysg gweithredoedd cymmain un,  
     nid oes yr un un weithred.  
 9 Y bobloedd oll a wnaethoedd (Iôn)  
     o'th flaen don' ac addolant:  
 A pha le bynnag a'r y bônt  
     i'th enw rhônt ogoniant.  
 10 Can's tydi ydwyd fawr a phur  
     yn gwneuthur rhyfeddodau.  
 A thydi 'n unig wyt yn Lduw,  
     ni cheisiwn amryw dduwiau.  
 11 Dŷsg i mi dy ffodd (O Arglywydd)  
     câf yn rhwydd dy wirionedd:  
 Gwnâf fy nghalon yn un â thi,  
     ac osnaf fi dy fawredd.  
 12 Ff Arglywydd Dduw, molianaf di  
     â holl egni fy nghalon:  
 Ae i'th fawr enw bŷth gan dant,  
     y rhof ogoniant cyffon.  
 13 Can's mawr yw dy drugaredd di,  
     tu ag atfaf fi yn barod,  
 Gwaredaist f' enaid i o'r bêdd,  
     ac o'r gorddyfniedd isod.  
 14 Duw, daethant arnaf fi wyr beilch,  
     fel illu o weich ewin-ddrud:  
 Ceisient ddwyn f' einioes o'r bŷd hwn.  
     i'w golwg gwn nad oeddud.  
 15 Ond tydi'n unig wyt hawddgar  
     a chlaiar dy drugaredd.  
 Hwy'r i'th lid, ac i gymmod hawdd,  
     llawn o nawdd a gwirionedd.  
 16 O edrych arnaf, moes dy râs  
     i'th wâs y fydd i'th orlwyn:  
 Dod i'n dy nerth, cadw fal hyn  
     fi, plentyn dy law-forwyn.  
 17 O Dduw, dôd o'th serch im' arwydd,  
     er gwradwydd i'm caseion:  
 Pan welant dy fod yn rhoi nerth  
     im', ac ymadferth ddigon.

S A L M LXXXVII.

S'eilfeini hon (sef Seion) sydd,  
     ar gyflegr fynydd ucho':  
 2 Ac ar dy byrth rhoes Duw ei serch,  
     uwch pol trig-lannerch Iago.  
 3 O ddinas Duw, preswylfa'r Iôn,  
     mawr ydyw'r son-am danad:  
 A gogoneddus air it'fydd,  
     uwch trigfennydd yr holl-wlad.  
 4 Rahab, Babel, a Phalestin,  
     a Thyrus flin, a'r Mwriaid,  
 A fu i'th blant elynion gynt,  
     mae rhai o honynnt unblaid.  
 5 Ond d'wedir hyn am Seion bêr,  
     Fo anwyd llawer ynddi,  
 Nid ymbell un: can's swccwr da  
     yw Duw gorucha' iddi.  
 6 Fe rydd yr Arglywydd yn ei rif,  
     y neb fo cyfrif hono:  
 Efe a esyd hyn ar lêd,  
     ff, Hwn a aned yno.  
 7 Cantor tafod; a cherddor tant,  
     pob rhai it' canant fawrglod;  
 A thrwy lawenydd mae'n parhâu,  
     fy holl ffynhonnau ynod.

S A L M LXXXVIII.

O Dduw fy iechyd, nôs a dŷdd  
     mae 'ngweddi 'n ufydd arnaf,  
 2 Gostwng d'v glüst, O Arglywydd nêf,  
     a dœd fy lîl hyd attad.

3 Can's mae fy enaid mewn dull caeth,  
     a'm heinioes aeth i'r beddrod:  
 4 Fel gŵr marw y rhifwyd fi,  
     a'm nerth oedd wedi darfod.  
 5 Môr farw a rhai wedi eu lladd,  
     a'u taflu 'nghladd mewn anghot,  
 A laddit di môr siŵr a hyn,  
     na bai byth honyn' argof.  
 6 Gofodaist fi mewn dynder trŵch,  
     ac mewn tywyllwch eithaf,  
 7 Rhoist hwys-dy ddig ar y corph maw,  
     a'th holl fôr-donnau arnaf.  
 8 Pellhêist fy holl gydnabod da,  
     'r wyl yn ffieidd-draiddyn':  
 Ni chaf fi fyned at un cár,  
     yr wyl mewn carchar rhy-dyn.  
 9 Y mae fy ngolwg (gan dy lid)  
     mewn gofid o fawr gystudd.  
 Duw, llefais arnaf yn fy mraw,  
     gan godi 'nwylaw beunudd.  
 10 Ai i'r meirw 'dangosi wyrth?  
     a ddônt i'th byrth i'th foli?  
 11 A draethir dy fawl yn y bêdd,  
     a'th lân wirionedd heini?  
 12 Ai mewn tywyll y mae dy râd?  
     a'th iowndeb yngwlâd anglo'?  
 13 Fal hyn (Duw) llefais arnat ti,  
     O clyw fy ngwedi etto.  
 14 Pa'm (O f'Arglywydd a'm Duw) i'm rhaid  
     y rhoi f' enaid ar wrthod?  
 Ac y cuddi dy wýneb pryd?  
     fy nghoel i gyd sydd ynod.  
 15 Trauau ymrôn marwolaeth wyl,  
     mewn trymglywyd o'm hieuenclyd:  
 A'th ofni bûm yn nytheth gwael,  
     gan ammeu cael mo'r iechyd.  
 16 Dy ddig a lifodd drosof fi,  
     d'ofn sydd i'm torri'n esrydd,  
 17 Fel deifir y daethant yn fy nghylch,  
     do, do, o'm hamgylch beunydd.  
 18 Ym mhell oddiwrthyf rhoit bob cár,  
     pob cyfaill hygar heibio,  
 A'm holl gydnabod a fu gynt,  
     yr ydynt yn ymguddio.

S A L M LXXXIX.

M Yfyrifaf gerdd byth i barhâu,  
     o drugareddau'r Arglywydd:  
 A'i wirionedd i'm genau fydd,  
     hyd dragwydd yn ebrwydd.  
 2 Sef, d'wedais hyn: cair byth yn wir,  
     addeledir trugaredd:  
 I barhâu byth cair yn y nêf  
     dy gardarn grêf wirionedd.  
 3 Fal hyn (O Dduw) atebaiast ym',  
     Mi wneuthym rwym gan dyngu  
 I Ddifydd f' etholedig wâs,  
     a'r gair o'm grâs yn tarddu.  
 4 Fal hyn sicrhâd dy hâd di byth,  
     a gwnâf wehelyth drefniad.  
 I'th gadarn faingc o oed i oed,  
     mi rôf bob troed yn waftad.  
 5 Am hyn y sicrwyd trag'wyddawl  
     y nêf o fawl dy wyrthiau:  
 Yngoredd Saint, ynglyrchfa hedd,  
     am bur wirionedd d'eiriau.  
 6 Pwy sydd cystal a'n Harglywydd cu,  
     pe chwiliid llu'r wybrennau?  
 Ym mysg Angylion pwy mal Iôn,  
     sef ym mhliith meibion duwiau?  
 7 Trwy gynnulleidfa ei Saint ef,  
     Duu o'r nêf sydd ofnadwy:

SALM LXXXIX.

1 A thrwy'r holl fyd o'n hamgyleh ni,  
ei ofni sydd ddyladwy :

2 Pwy sydd debyg i ti Dduw byw,  
O Arglywydd Dduw y lluoedd ?

3 Yn gadarn Jör, a'th wir i'th gylch,  
o amgylch yr holl nesoedd.

4 Ti a ostyngi y môr mawr,  
a'r dôn hyd lawr yn ystig :

5 A nerth dy fraich curi dy gás,  
yr Aipht, fal gwás lludedig.

6 Eiddot nêf a daear i gýd,  
feiliaist y byd a'i lanw :

7 Gogledd, deau, Tabor, Hermon,  
fy dirion yn dy enw.

8 I'th fraich mae grým, mae nerth i'th law,  
a'th gréf ddeheu-law codi :

9 Nawdd a barn yw dy orsedd hîr,  
a nawdd, a gwîr a geri.

10 Eu gwînfyd i'r holl bobl a sydd,  
a fo'u llawenyyd yn oed;

11 Ac yn llewyrch dy wyneb glân  
y rhodian i gyfarfod.

12 Yn d' unig enw di y caint,  
fawr a gogoniant beunydd :

13 Yn dy gyflawnder codi wñânt,  
ac felly byddant ddedwydd.

14 Can's ti wyt gryfder eu nerth hwy,  
lle caffent fwy o dyciant :

15 Tydi a ddyrchesi eu cyrn,  
ac felly cedyrn fyddant.

16 Can's o'r Arglywydd a'i ddaioni,  
y daw i ni amddiffn :

17 O Sanct Israëli trwy ei law,  
oddiyno daw ein brenhin.

18 I'th sanct y rhoiost gynt wýbodaeth,  
trwy weledigaeth nefol:

19 Gosodaf gymmorth ar grýf gûn,  
drychesfai un dewisol.

20 Cefais (enneiniais ef yn ôl)  
fy ngwâs dewisol Dafydd

21 Ag olew sanct : Braich a llaw gréf,  
rhoiost gyd ag ef yn llywydd.

22 Ni chaffi gelyn ei orthymmu,  
na'i ddryguu un mât enwir :

23 O'i flaen y coetha'i elynion,  
a'i holl gafeion dihir.

24 Fy ngwirionedd, a'm trugaredd,  
rhof fi trwy gariad iddo,

25 Ac yn fy enw i yn ddior, dyrchesfai ei gorn eso.

26 Gofodaf ei law ar y môr,  
ac o'r goror bwgyliyd;

27 A gofodaf ei law ddeau  
hyd derfynau'r asonydd.

28 Ef a weddia arnaffi  
i'w galeti, gan dd'wedyd,

29 Ti yw fy nhâd, fy Nuw, fy ngharn,  
yn gadarn ym lieuenytyd.

30 Minnau gwnâf yntau im' yn fâb,  
yn gynfab ac etifedd,

31 Ar frenhinoedd y ddaear lás,  
yn uwch ej râs a'i fawredd.

32 A chadwaf iddo (yr un wêdd)  
drugaredd yn dragwyddol :

33 A'm cyfammod iddo yn llawn,  
yn ffyddlawn, ac yn nerthol.

34 Gosodaf hefyd byth i'w hâd,  
nerth a mawrhâd uwch bydoedd :

35 A'i orsedd-faingf ei barhâu,  
un wêdd a dyddiau'r nesoedd.

36 Ond o's ei blant ef (trwy afrôl)  
nid ânt yn ôl fy nghyfraith,

37 O's hwy ni rodiant, gan barhâu,  
i'm beirn a'm llwybrau perffaith,

38 O's fy neddiau a halogant,  
ni chadwant fy holl eirchion,

39 Yna ymwelaif â'u cam gwrs,  
â gwial scwrs, neu goedifon.

40 Ond ni thorraf ag ef un nôd,  
o'm hammod a'm trugaredd :

41 Ac ni byddaf fi ddim yn ôl,  
o'm hyftyriol wirionedd.

42 Ni thorraf fy nghysammod glân,  
a ddaeth allan o'm genau ;

43 Ac ni newidias air o'm llw,  
mi a rois hwnnw 'n ddiau.

44 Yn fy sancteiddrywydd tyngais im'  
na phallwn ddim i Ddafydd :

45 Bydd ei hâd a'i drûn, yn ddi draul  
o'm blaen fel haul tragedwydd.

46 Yn dragwydd y sicrheir ef,  
fel cwrs (is nêf) planedau

47 Haul neu leuad, felly y bydd  
ei gwrs tragedwydd yntau.

48 Ond ti a'n ffieiddiaist ar fyr,  
ac yn ddiyfyr lliodiog,

49 Ti a gyffroaist yn dra blîn,  
wrth dy frenhin enneiniog.

50 Diddymmaist di dy air i'th wâs,  
a'th râs a'th addewidion :

51 Ac a'i halogaist ef yn fawr,  
gan daflu i lawr ei goron.

52 A drylliaist ei fagwyrydd ef,  
a'i gaer gréf rhoiost yn adwy,

53 Yn egored felly y mae  
yn brae i bawb sy'n tramwy.

54 I'w gym'dogion gwarthridd yw ef,  
a than law gréf ei elyn,

55 A llawen iawn y codent floedd,  
bob'rhai a oedd i'w erbyn.

56 Troist hefyd fin eu gleddau ef,  
a'i law oedd gréf a blygaist :

57 Darfu ei lendif ef a'i wawr,  
a'i drûn i'r llawr a fwriaist.

58 Pyrd ei ieuenctid heibio'r aeth,  
a thi a'i gwnaeth cyn fyrred.

59 A bwriaist drosto w'radwydd mawr,  
o'nenn hyd lawr y torred.

60 Pa hýd, fy Nuw, y byddi 'nghûdd ?  
ai byth, fy llywydd nefol ?

61 A llysg dy lid di fel y tân  
yn gyfan yn dragwyddol ?

62 O cofia f' oes ei bod yn fær,  
ai'n ofer gynt y gwnaethost

63 Holl blant dynion ? O dál dy law,  
ac in' ni ddaw yn rhydost.

64 Pa wr y sydd a'i oes dan fêl,  
na ddêl marwolaeth atto ?

65 Pwy a all ddiangc, ac ni ddaw  
y gaib a'r rhaw i'w guddio ?

66 O mae dy-nodded Arglywydd gynt ?  
mae helynt dy drugaredd ?

67 Mae dy Iw, o ystyriol ffydd,  
i Ddafydd i'th wirionedd ?

68 Pa wr y sydd a'i oes dan fêl,  
na ddêl marwolaeth atto ?

69 Pwy a all ddiangc, ac ni ddaw  
y gaib a'r rhaw i'w guddio ?

70 O mae dy-nodded Arglywydd gynt ?  
mae helynt dy drugaredd ?

71 Mae dy Iw, o ystyriol ffydd,  
i Ddafydd i'th wirionedd ?

72 Cofia, Arglywydd, yn w'radwydd llŷm  
lle'r ydym ni, dy weision :

73 Yr hwn a dawdd i'm mynwes i,  
gan ffrôst y Cawri mawrion.

74 Yr hwn warth 'r oedd d'elyniion di  
it' yn ei roddi 'n lliodiog,

75 (Fy Arglywydd Dduw) a'i un farhâd  
i droediat dy enneiniog.

76 Molet yr Arglywydd byth, Amen,  
a byth Amen, hyn syddo.

SALM XC, XCI, XCII.

Moler yr Arglywydd byth, Amen.  
a byth Amen, hyn fyddo.

SALM XC.

**D**UW! buoſt in' yn Arglywydd da,  
ac yn brefwylfa i drigo,  
O brŷd i brŷd, felly yr aeth  
pob rhyw genhedaeth heibio.  
2 Er cyn rhos fail un mynydd mawr,  
cyn llunio llawr ewmpas-fyd,  
Dwū! o dragwyddol wyt cyn neb,  
hŷd dragwyddoldeb hefyd.  
3 Weithiau i ddinuſtr y troi ni,  
troi dithau wedi 'n rhyyda:  
A d'wedi cyn ein myn'd i'r llwch,  
Dychwelwch meibion Adda.  
4 Can's deg cān mlynedd fel doe ŷnt,  
pan elo 'i helyni heibio,  
O'r flaen di megis gŵyliau nôs,  
ni chaiff ymddangos etto.  
5 Nid yw dŷn ond fel hûn, neu ail  
i addail, neu liseiriant,  
Neu megis glâs lyfieun gwân,  
môr tuan y newdiant.  
6 Yr hwn y bore gwyrddol sydd  
a gwawr o newydd arno:  
Ond pan y torrer ef brydnawn,  
yn tuan mae'n gwywo.  
7 Can's yn dy lîd difethwyd ni  
gan ofni dy ddiſgoſaint:  
8 Roifft di ein beiau gar dy fron,  
a'n holl ddirgelion dryg-haint:  
9 Can's trwy dy ddîg mae'n dyddiau ni  
a'n tegwch gwedi darfod,  
A'n holl flynyddoedd ŷnt ar ben,  
fel gorphen hên chwedi gorſod.  
10 Ein holl flynyddoedd yw faith ddeg,  
daw bump'chwaneb o's bydd grym;  
Yna ein nerth a'i'n boen blin iawn,  
i flordd yr awn yn gyflym.  
11 Ond pwy a edwyn nerth dy lîd?  
mawr ofid sydd o'th forri:  
Sef, fel y mae dŷ ofn di'n fawr,  
dy ddîg sydd ddirfawr ini.  
12 Dŷsg felly 'n rif o'n dyddiau gwael,  
i'n calon gael doethineb.  
13 Duw pa hŷd? ty'r dôd yn hawdd  
i'th weifion nawdd ac undeb.  
14 Yn fore iawn diwalla ni  
a'th fawr ddaioni eisoes,  
Fely caffom ni lawen fyd,  
yn hyfryd dros ein heinioes.  
15 Gwnâ ni yn llawen, buom brudd  
pan oedd in'gyfudd dybryd:  
A chwedi llawer blwyddyn drom,  
y rhai a gawfom adfyd.  
16 O Dduw, gwnâ weled dy fawr waith,  
a'th wyrthiau mait i'th weifion,  
A'th odidowgrwydd, a'th ffyniant,  
ym myſg eu plant a'u hwyriion.  
17 Arnom ni doed rhâd Duw a'i nerth,  
ei allu prydferth weithiau:  
Dwû, dôd ein gwaith mewn trefnïd dda,  
Dwû, trefina waith ein dwylaw.

SALM XCI.

**Y**Sawl a drigo, doed yn nês,  
yn lloches y Goruchaf,  
Ef a ymerys i gael bod  
ynglysgod hwn sydd bennaf.  
2 Fy holl ymddifynn wyt a'm llwydd,  
wrth fy Arglywydd y d'wedaf,

A'm holl ymddiried trâ fwy fyw  
fydd yn fy Nuw Goruchaf.  
3 Can's ef a weryd yr oes dau,  
oddiwrthfaglau yr heliwr,  
Ac hefyd oddiwrth bla, a haint,  
echrys-haint, ac anghyflwr.  
4 Ei eſgyl droſot ef a rydd,  
dan ei adenyyd byddi  
Yn ddiogel: a'i wiredd grêd  
fydd gylch a bwccled i ti.  
5 Ni ddychryni er twrf y nôs,  
na'r dydd o achos hêd-saeth,  
6 Er haint, neu blâ, mewn tywyll sydd,  
neu hanner dydd marwolaeth.  
7 Wrth dy yſtlys y cwympa mil,  
a dengmil o'th law ddeau;  
Ac ni ddaw drwg yn dy gyfyl,  
a thi a'i gwyl yn ddiau.  
8 A'th lygaid y gwelj di dâl  
i'r enwir gwammal anian,  
9 Sef fy holl obaith wyt (O Dduw,  
ac uchel yw dy drigfan,  
10 Ni ddigwydd niweid it', ond da,  
na phlâ, na dim echrylon,  
I'th Eglwys a'th gynlleidfa nawdd;  
11 can's archawdd i'w Angylion,  
I'th ffyrdd dy gadw, a'th gynllwyn,  
a'th ddwyn a'u dwylaw hardd-deg,  
12 Rhag digwydd it' ddrwg (hyd yn oed)  
tar o droed wrth garreg,  
13 Dy sangfa sydd ar y llêw dig,  
a'r asp wenwynig fethri;  
Ar greadlon genau'r llêw o'r graig,  
ac ar y ddraig y fengi.  
14 Mi a'i gwaredaf ef rhag brâd,  
am roi ei gariad arnaf,  
Am adnabod fy enw mau,  
yn ddiau y dyrchafaf.  
15 Geilw arnaf, m'a'i gwrandawaf;  
mewn ing y byddaf barod;  
Gwaredaf hefyd rhag ei gâs,  
a chaiff trwy urddas fawrglod.  
16 Fo gaiff fyw yn ddigon o hŷd,  
caiff yn y bŷd hîr ddyddiau;  
Dangolaf iddo radlawn faeth,  
a'm hiechydwriaeth innau.

SALM XCII.

**M**oliannu 'r Arglywydd da iawn yw,  
a chyfarach Duw yn bennaf;  
A chanu i'th enw di fawl,  
a'th ganmawl (y Goruchaf).  
2 Y bore am dy drugaredd,  
a'th wirionedd fôn y nôs,  
3 Ar ddectant, nabyl, a thelyn,  
myfyrio hyn a'i ddangos.  
4 Sef, trwy dy weithred llawen wy',  
ennym o nwy 'n fy Nuw Naf,  
Yngwaith dy ddwylaw, fy Nuw Iôr,  
beunydd y gorfoleddaf.  
5 Dy weithredoedd, ond mawrion ŷnt?  
6 Dy helynt ni's gŵyr anghall:  
Dy feddyliau o ddwfn iawn fryd,  
hyn ni's gŵyr yntyd ddeall.  
7 Pan fiofeuo yr enwir ddŷn,  
megis llyfieun iraidd,  
Pan fo drygweilch yn gref eu plaid,  
Dwû, yno rhaid eu diwraidd.  
Y drwg flagur uchel yr ânt,  
a hwy a syrthiant beunydd:  
8 Tithau yr Arglywydd yn ddigel,  
wyt uchel yn dragwydd.

### SALM XCIII, XCIV, XCV.

9 O Arglywydd, wele d'elynnion,  
dy gaseion difethir;  
A holl weithredwyr traes a cham,  
yn ddinam a waferir.  
10 Tydi a ddyrchedi sy nghorn,  
fel yr unicorn perffaith,  
Hefyd a gwerthfawr olew ir,  
y'm taenellir i eiwaith.  
11 Fy llygaid a welant hefyd,  
fy ngwynfyd o'm gelynion.  
A'm clustiau a glywant ar frys  
f'ewylls am ddrwg ddynion.  
12 Y cyfion blodeua i'r nenn,  
fel y balmwŷdd union.  
Cynnyddu yn iraidd y bydd,  
fel cedrwŷdd yn Libanon.  
13 Y rhai a blannwyd yn nhŷ Dduw,  
yn goedwŷdd byw y tyfant,  
Ac ynghynteddau ein Duw ni  
y rheini a flodeuant.  
14 A dwyn eu ffrywth a wnânt o faint,  
yn amser henaint etto,  
Tirfion, iraidd, a phrosadwy  
a fyddant hwy yn hilio.  
15 I ddangos nad traws, ac nad cam  
yw f'Arglywydd a'm cadernyd,  
Ac nad oes ynddo na chamwedd,  
na dim anwiredd hefyd.

### SALM XCIII.

**T**eyrnas y mae yr Arglywydd,  
mewn ardderchowgrwydd gwisgodd:  
Ymwigodd f'Arglywydd yn brydferth,  
a nerth yr ymgregyfodd.  
2 Fe a fiscraodd fail y bŷd  
heb syfyd, yn ddihareb;  
Dy faingc erioed a ddarparwyd,  
ti wŷd er tragwyddoldeb.  
3 Y llifeiriaint, (fy Arglywydd) faint  
y llifeiriaint yn codi,  
Tyrfa a llif yn rhwyo'r llawr  
a thonau mawr yn coethi.  
4 Cadarn yw tonnau ymoroedd,  
gan dyrau dyrroedd lawer,  
Cadarnach yw yr Arglywydd mau,  
yn nhyrâu yr uchelder.  
5 Dy dystiolaethau ynt fiwr iawn;  
sef cyfawn yw sancteiddrywydd,  
A gweddus yn dy di fydd,  
byth yn dragwywyd, f'Arglywydd.

### SALM XCIV.

**O** Arglywydd Dduw, Duw mawr ei rym,  
O dialwr llŷm pob traha,  
O Dduw y nerth, ti biau'r tâl,  
a'r dial, ymddigleiria.  
2 Ymddyrrcha di farnwr y bŷd,  
a thâl i gŷd eu gobrwy,  
Tr beilchion a'r trahâs dôd  
y tâl a fo dyladwy.  
3 Pa hŷd? (O Arglywydd) O pa hŷd,  
y chwardd gwyr byd drygionus?  
4 Yr ymfalchiant yn eu drwg,  
gan fygwyd amlwg ffroitus?  
5 A't bobl di Arglywydd a faeddant,  
a chyffuddiant dy dreitâd,  
6 Y weddw, a'r dieithi a laddant,  
lliafant yr amddifad.  
7 D'wedasant hyn heb geisio  
Ein gwaith ni wêl yr Arglywydd  
Ac ni ddeall Duw iag ym  
i ni ni ddisgyn aifwyd.

8 Ym mŷsg y bobloedd difraw dôn,  
ystyriwch ddynion anghall.  
Chwithau ynfydion, O pa brŷd  
y rhowch eich brŷd ar ddeall?  
9 Hwn a wnaeth y giâst i bob byw,  
oni chlyw ef yn amlwg?  
Ac oni wêl hwnnw, yn hawdd  
a luniau wdd i ni olwg?  
10 Oni cheryddha hwnnw chwi  
sy'n cosbi pob cenhedlaeth?  
Ac oni wyr hwnnw y fy'n  
dysgu i ddŷn wŷbodaeth?  
11 Gŵyr yr Arglywydd feddyliau dŷn  
mai gwagedd yd yn diffaith,  
12 Duw, dedwŷdd yw a gosbech di,  
a'i fforddi yn dy gyfraith:  
13 Yr bon a ddŷl i ddŷn warhâu,  
i fwyr dyddiau dihir,  
Tra foer yn darparu y clawdd,  
y fân y bawdd yi enwir.  
14 Can's ein lôr ni ei bobl ni âd,  
a'i wir dreftad ni wrthyd,  
15 Ef at sarn iawn a gadarnhâ,  
a phob dŷn da a'i dilyd.  
16 Pwy a gyfyd gyd â myfi,  
yn erbyn egni trawfodd?  
Pa rai a safant ar fy nnu  
yn erbyn llu anwiredd?  
17 Oni bai fod Duw i mi 'n borth,  
ac ystyn cymmorth i mi,  
Braidd fu na ddaethai im' y loes  
a roifai f' oes i dewi.  
18 Pan fawn yn cwymo dan drymhâu,  
rhag bod i'm camrau lithro;  
Fy Arglywydd, o'th drugaredd drûd,  
di a'm cynhelud yno.  
19 Pan fo ynof amlaf yn gwâu,  
bob rhyw feddyliau trymion,  
Doe dy ddiddanwch di ar dro,  
i gyfuro fy nghâlon.  
20 A oes gyteillach i ti Dduw,  
a maint yr annuwiolion?  
Hwn a luniau anwiredd maith  
yn lle y gyfraith union.  
21 Y rhai sy'n ymdyrriu yngŷd,  
ar frŷd dwyn oes y cyfion:  
Ac yn eu cyngor yr ymwnâed  
i geisio gwaed y gwirion.  
22 Ond yr unig lôr sydd er hyn,  
yn llwyr ymddifynn f' enaid:  
Ef yw fy nerth o'm hól a'm blaen,  
a sylfaen fy ymddiriaid.  
23 Efe a dâl i bob dŷn drwg,  
yn amlwg am ei gamwedd:  
Y maleisus tŷn Duw o'r bŷd,  
am ei chwŷd o anwiredd.

### SALM XCIV.

**O** Dowch, a chanwn i'r Arglywydd,  
O efe yw llwydd ein bywyd:  
Ac ymlawnenhâwn yn ei nerth,  
ef yw ein prydferth iechyd.  
2 O down yn unfryd ger ei fron,  
a châlon bûr ddiolchgar:  
Bryiwn at Dduw, dan lawenhâu,  
a chanwn falmau 'n llafar.  
3 Herwŷdd yr Arglywydd nêf a llawr,  
y sy Dduw mawr yn ddiau:  
Twyfog mawr yw ef mewn trin,  
a brenhin yr holl dduwiau.  
4 Efe biau'r holl ddaear gron,  
a'r dyfnder eigion danaw:

Uchelde

## SALM XCVI, XCVII, XCVIII.

Uchelder hefyd, eithafoedd,  
mynyddoedd sydd yn eiddaw.  
5 Ef biau'r moroedd uwch pob traeth,  
ac ef a'u gwnaeth i ruo:  
Ei ddywlaw ffurfasant yn wir  
y sychdir ac sydd ynddo.  
6 Dowch, addolwn, cýd-ymgrymmwn,  
ac ymofstyngwn iddaw:  
Ef yw ein Harglywydd unben rhi,  
ei a'n gwnaeth ni a'i ddywlaw.  
7 Can's ei i ni y sydd Ddudw da,  
a phobl ei borfa ydym:  
A'i ddefaid ym, o's chwi a glyw  
ei air ef heddyw'n gyffinym.  
8 Meddyliwch fod eich bai ar llêd,  
na fyddweh galed galon:  
Fel yn nydd prawf, mewn anial dir,  
ille' confi bod ymryfon.  
9 Y lle temtiodd eich tadau fi,  
a'm profi i'm hadnabod:  
Faint ydoedd y gweithredoedd mau,  
yn ddiâu cawiant wýbod.  
10 Dros ddeugain mlynedd a'r llin hon  
trwy fawr ymryfon, d'wedi,  
Pobloedd ynt cyfeiliornus iawn,  
a'u calon yn llawn malais.  
Can's nid adwaenent y ffyrdd mau,  
onid amlhâu eu tuchan:  
11 Wrhynt i'm llid y tyngais hyn,  
na ddcelyn i'm gorlhwysfan.

## SALM XCVI.

1 Cenwch glôd i'r Arglywydd mân,  
a moeswch ganiad newydd:  
Yr holl ddaear dadgenwch fawl,  
yr Arglywydd nefawl beunydd.  
2 Cenwch chwi glôd i'r Arglywydd nêf,  
a'i enw ef bendigwch,  
A'i iechydriath trwy grefydd,  
o ddýdd i ddýdd cyhoeddwch.  
3 Dadgenwch byth ei glôd a'i rád,  
yngwlâd y cenhedlaethedd,  
A'i ryfeddodau ef ym mhleth,  
pob arryw, amriath bobloedd.  
4 Can's ein Harglywydd ni sydd Dduw mawr,  
a rhagawr camnoladwy:  
Uwch yr holl dduwiau y mae ef,  
yn frenhini nêf ofnafnau.  
5 Duwiau y bobl eulynnodd ynt,  
ni ellint mwya nâ chyfod:  
A'n Duw ni a wnaeth nêf a llawr,  
fel dyna ragawr gormod.  
6 Can's mawr ydyw gogoniant nêf,  
ac o'i flaen ei mae harddwch;  
Yn ei gyfflegr ef y mae nerth,  
a phrydferth yw'r hyfrwyd.  
7 Chwi dylwythau y bobloedd, trowch,  
yn llawn rhowch i'r Arglywydd,  
I'r Arglywydd rhowch ogoneedd frî,  
a nerth, a hynny 'n ebrwydd.  
8 Rhowch ogoniant i'w enw ef,  
yr Arglywydd nêf byth bythoedd,  
A' bwyd offrwm iddo a rowch,  
a chwi dowch i'w gynteddoedd.  
9 Addolwch f' Arglywydd ger ei fron  
i'w gyfflegr, digon gweddol:  
A'r ddaear rhagddo, hîd, a llêd,  
dychryned yn aruthrol.  
10 I'r holl genhedioedd d'wedwch hyn,  
Yr Arglywydd sy 'n teyrnasu:  
Nid ysgog y byd sy 'n sicr iawa  
ef a wyr uniauñ farnu.

11 O llawenhaed nefolaiand do,  
i'r ddaear bo gorfoedd;  
Rhued y môr a'i donnau llawn,  
a'r pýsgr sy' mewn ei annedd.  
12 A gorfoledded y maes glâs,  
ei dŵs, a'i addas ffyniant:  
A phob pren gwyrdd sydd yn y coed,  
i'r Arglywydd rhoed ogoniant.  
13 Am ei ddyfod, am ei ddyfod,  
a'i farm sydd hynod iawnwedd:  
Barna yn gyffion yr holl fyd,  
a'r bobl a'i gýd-winonedd.

## SALM XCVII.

YR Arglywydd ydyw ein pen rhâth,  
bo perffaith y ddaearon:  
Ynysedd cedyrn yr holl fyd,  
bont hwy i gýd yn llawen.  
2 Niwl a thywyllwch f'i'w gylch ef,  
hyfrydwch nêf gysannedd:  
Iawnder a barn ydnt yn fail,  
ac adail maingc ei orfeedd.  
3 Tân a o'i flaen ef, ac a lîfg  
ym mysg ei holl elynion:  
4 A'i felît yn ffiamio trwy'r holl fyd,  
oedd olwg enbyd ddigon.  
5 O flaen Duw, fel y tawdd y cwyrs,  
y bryniau 'n llwyr a doddant:  
O flaen hwn (fef yr Arglywydd) ar  
y ddaear y difflant.  
6 Yr holl nefoedd yn dra hysbys  
a ddengys ei gyhawnedd,  
A'r holl genhedioedd a welsant  
ei fawr ogoniant rhyfedd.  
7 Gw'radydd i'r rhai a waesnathan  
y delwau mân ceriedig:  
Addolwch ef (nid eilun gau)  
holl dduwiau darfodedig.  
8 Dy farnedigaeth (O Dduw Iâ)  
a glybu Sélon ddedwîdd:  
Merched Juda (o herwydd hyn)  
fy'n enny o lawenydd.  
9 Can's ti (O Arglywydd) wyt, fy Nâf,  
oruchad dros y ddaear:  
Rhagorol yw'r dyrchafiad tau  
uwchlâw'r holl dduwiau twylgar.

10 Pob drygioni chwi a gafewch,  
caru a wnewch yr Arglywydd,  
Hwn sydd yn cadw oes ei Saint,  
i'w dwyn o ddrygraint afrwydd.  
11 Mewn daear yr egina i'hâd,  
goleuad daw i'r cyfion,  
Yn ôl tristwch fo dry y rhôd,  
i lân gydwybod union.  
12 Yn yr Arglywydd, o'r achos hon,  
chwi gyffion llawenychwch,  
Trwy goffa ei sancteiddrwydd ef,  
a llais hŷd nêf molienwch.

## SALM XCVIII.

CEnwch i'r Arglywydd newydd gân,  
ei waith fu lân ryfodod:  
Ei law ddeau a'i fraich a wnaeth,  
in' iechydriath parod.  
2 Yr Arglywydd hysbys in' y gwnaeth  
ei iechydriath gyhoedd,  
A'i gyflawnder ef yn dra hawdd.  
dadguddiawdd i'r cenhedloedd.  
3 Fe gofiodd ei drugaredd hir,  
a'i wir i dî Ifrael,  
Fel y gwelood terfynau'r bîd  
ei iechyd yn ddiyngel.

SALM XCIX, C, CI, CII.

4 Tr Arglywydd b'chaniad llafar,  
chwi, yr holl ddaear, cewch.  
A llafar lais, ac eglur lëf,  
frî hîd y néf y lleiswch.

5 Cenwch i'r Arglywydd Dduw fel hyd  
a'r delyn, a chywirdant;  
A chyd a'r delyn lais a thôn,  
rhowch iddo gyllon foliant.

6 Canu yn llafar ac yn rhwydd,  
o flaen yr Arglywydd frenhin:  
Ar yr udgyrn, a'r chwythgyrn pres,  
fel dyna gyffes ddibrin.

7 A rhued y môr mawr i gîd,  
a'r bîd, ac oll sydd yndynt;  
8 Y llif-ddyfroedd, a'r mynyddoedd,  
y mae yn addas iddynt.

9 Curant, canant, o flaen Duw cu,  
y hwn sy'n barnu'r bydoedd.  
I'r bîd y rhîdd ei farn yn iawn,  
ac yn uniaawn i'r bobloedd.

SALM XCIX.

YR Arglywydd Dduw yw ein brenhin,  
er main yw trin y bobloedd;  
Mae'n eistedd rhwng dau gerubyn,  
fe gryn pob daear-leoed.

2 Canys brenhin mawr ydyw i'r lôn  
yn Seion o'i ddyrchedol:  
Ac uwchlaw pobloedd yr holl syd,  
y sydd o ryddyd uchel.

3 Cyd-foliannant o'r néf i'r llawr,  
dy enw mawr rhagorol:  
Ofnadwy, sanctaidd, yw i'w drin.  
4 Tithau (O frenhin néorthol)

A geri farn, darperi iawn;  
yn gyflawn heb draws-oso,  
A barnedigaeth hûr ddiidol,  
a wnaethol di yn lago.

5 Dyrchesfwrth yr Arglywydd ein Duw,  
fel sanctaidd yw i'w fawredd:  
Ymgrymmwch o flaen ei stôl-draed,  
felly parhaed ei fawledd.

6 Moes, ac Aron sanctaidd blaidd,  
ymmhliith offeiriad gyrrodd:  
Samuel galwai ei enw ef,  
yntau o'r néf atebodd.

7 Mewn colofn o niwl y bu wiw,  
gan Dduw lefaru wrthiyn,  
Tra fuant hwy yn cadw ei fodd,  
a'r ddeddf a roddodd iddynt.

8 Gwrandewaist arnynt, dodaist gêl,  
a'u harbed, gan ymattol:  
Dw ein Nâf, dy nawdd parod fu,  
a hwythau'n haeddu dial.

9 Dyrchesfwrth ein Duw iôr am hyns,  
yn Seion fryn-cysfegraidd,  
Ymgrymmwch iddo yn eich byw,  
fel unig Dduw sydd sanctaidd.

SALM C.

YR Arglywydd cénwch llafar glôd,  
a gwnêwch usudd-dod llawen fryd:  
2 Dowch o flaen Duw a pheraidd dôn,  
trigolion y ddaear i gîd.

3 Gwybyddwch mai'r Arglywydd sydd Dduw,  
a'n gwnaeth ni'n syw fel hyn i fôd,  
Nid ni'n hunain; ei bôbl ym ni,  
a defaid rhî' ei borff a'n nod.

4 O ewch i'w hîrth a diolch brau;  
yn ei gynteddau molwch ef:  
Bendithiwrh enw Duw llynnod,  
għowch iddo glôd i'r llafar.

5 Can's da yw'r Arglywydd, awdur hedd,  
da ei drugaredd, a dilyth,  
A'i wirionedd i ni a roes,  
o oes, i oes, a bery bîth.

SALM CI.

D Adganaf drugaredd a barn,  
i'r Arglywydd cadarn canaf.  
2 Byddaf ddeallus mewn ffôrdd wîch,  
hîd oni ddelych attaf.  
A rhodas yn sy nhî yn rhwydd,  
a thrwy berfffeithrwydd calon.  
3 Pob peth drwg sydd gennys yn gâs,  
a childyn ddiras ddynion.  
4 Calon gyndyn ynof ni bydd,  
drwg weithydd ni 'dnabyddaf.  
5 Sglandwr dirgel, a'r balch uchel  
o'r achos ni oddefaf.  
6 Ar ffyddloniaid mae 'ngolwg i,  
fe lîn y rheini wrth i:  
A'r hwn a radio mewn ffôrdd dda,  
hwn a wâs'naetha i mi.  
7 Ni chaffi aros o fewn sy nhî,  
un dîn ag sy dwyllodrus,  
Yn sy ngolwg un dîn ni bydd,  
a lunio gelwydd trefnus.  
8 Holl anuwionion sy ngwlâd faith,  
ya fore ymath torraf:  
Fel na ddelont i ddinas Dduw,  
y cyfryw a ddiwreiddiaf.

SALM CII.

O Arglywydd erglyw sy ngweddi,  
a doed fy nghri hîd attaf:  
2 Na chudd d'wyneb mewn ing tra fwyi,  
clyw, clyw, pân alwyf arnaf.  
3 Fy nyddiau aethant fel y mwsg  
fel cynddrwg ym cystuddiwyd:  
Fy eigrwm poethant achos hyn,  
fel 'tewyn' ar yr aelwyd.  
4 Fy nghâlon trawyd â chryn jâs,  
ac fel y gwelt-glas gwywod:  
Fel yr anghofnais fwytra 'mwyd  
dirmygwyd fi yn ormodd.  
5 Glyndd fî eigrwm wrth fy nghroen,  
gan faint fy mhoen a'm tuchân:  
6 Fel un o'r anialwch, lle trig  
y pelig, neu'r dyluan:  
7 Neu fel un o adar y to,  
a fai yn gwyllo i sywyd,  
Yn rhodio 'n unig ben y ty,  
wyf anhy ac anhyfryd.  
8 Fy ngelynion â thaod rhîdd,  
hwy beunydd a'm disenwant:  
A than ynfyd ym eu gwyn,  
i'm herbym y tyngaint.  
9 Fel llwch a lludw yn sy mhlâ,  
fu'r bara a fwyteais.  
Yr un wedd ym y ddiod faw  
ty nagrath a gymmyl gâs.  
10 A hyn fu o'r ddigolaint di,  
am it' fy nghodi unwaith;  
Ac herwydd bod dy ddig yn y fawr,  
i'r llawr ym tenaith elwaith.  
11 Fy nyddiau troifant ar y rhôd,  
ac fel y cyfgod cilant;  
Minnau a wywais achos byn,  
fel y glaswelltyn methiant.  
12 Ond tydi Dduw, fy Arglywydd da,  
a barhei yn dragwyddol,  
O oes i oes dy Enw a'neb  
mewn coffadwriaeth grifol.

### SALM CHI, CIV.

13 O cyfod-bellach, trugarhâ,  
 O Dduw, bydd dda wrth Seion:  
 Mae'n fadws wrthi drugarhâ,  
 fel dyma 'r nodau 'n union:  
 14 Can's hoff iawn gan dy weision di,  
 ei meinai a'i magwyrau;  
 Maent yn toftrio wrth ei llwch,  
 a'i thristwch, a'i thrallodau.  
 15 Yno yr holl genhedaeth byw,  
 yr Arglwydd Dduw a ofnant:  
 A'r holl frenhinoedd trwy y byd,  
 a rônt it' gôd-ogoniant.  
 16 Pan adeilader Seion wych,  
 a hon yn dôr ych i'r gwlydd:  
 Pan welet gwaith yr Arglwydd ne',  
 y molir e'n dragwydd.  
 17 Edrychodd hwn ar weddi'r gwael,  
 rhoes iddynt gael eu harchau:  
 18 Sgrifenni hyn: a'r oes yn ôl  
 a gaiff ei ganmol yntau.  
 19 Can's Duw edrychodd o'r nêf frî,  
 ar ei gysgrif-dî, Seion:  
 20 Clybu ei griddfan, er rhuddhau  
 plant angau 'i garcharorion.  
 21 Fel y cîd-leisient hwy ar gân,  
 yn Seion lân, ei foliant;  
 Ac yng Nghaersalem yn un wêdd,  
 ei fawredd a'i ogoniant.  
 22 Hyn fydd pan gafglo pawb yngîyd,  
 yn unfryd i'w foliannu:  
 A'r holl deyrnasoedd dônt yngîwydd  
 yr Arglwydd, i'w was'naethu.  
 23 Duw, ar y ffordd lleihâdd fy nerth,  
 byrhâdd fy mhrŷdferth ddyddiau,  
 A mi'n diwgwl rhuddhâd ar gais,  
 yna d'wêdais innau;  
 24 O Dduw, na thorr fy oes yn frau,  
 ynganol dyddiau f'oe dran;  

SAMECH. Rhan 15.

113 Dych'mygion ofer cafeas i,  
a'th gyfraith di a hoffais.  
114 Lloches a tharian im' y'th gair :  
wrth dy air y disgyliais.  
115 Ciliwch rai drwg oddiwrthys fi,  
fy Nuw cadwaf ei gyfraith,  
116 Cynnal fi a'th air, a byw a wnâf,  
ni wridaf am fy ngobaith.  
117 O cynnal fi, fy Arglwydd Nâf,  
a byddaf iâch drag wycodol :  
Ac yn dy ddeddfau iâch y bydd  
fy llawenydd gwaftadol.  
118 Sethraint, O Arglwydd, yr holl rai  
a ai oddiwrth y ddeddfau :  
Am mai oferedd ger dy fron  
oedd eu dych'mygion hwythau.  
119 Disfethaist holl rai drwg y tûr,  
fel y disfethir sothach.  
Am hyn dy dystiolaethau di,  
a gerasi i'n anwylach.  
120 O Arglwydd Dduw, rhag ofn dy ddig,  
ty nghawd a'm cîg a synnodd.  
Rhag dy farnedigaethau di,  
ty yspryd i a oinodd.

AIN. Rhan 16.

121 Barn a thrugaredd a wneuthym,  
na ddod fi y'm cafeion :  
122 O Arglwydd, dîsg ddaioni i'th wâs  
achub rhag cás y beilchion.  
123 Pallai 'ngolwg yn disgwyl llawn  
iechyd o'th gyflawn einiau.  
124 Yn ôl trugaredd a'th wâs gwnâ,  
dîsg i mi'n dda dy ddeddfau.  
125 Dy wâs wyf fi, deall im' dôd,  
i' wybod dy ammodau.  
126 Madws it' (Arglwydd) roddi barn,  
torrwyd dy gadarn ddeddfau.  
127 Mwy nag aur hoffais dy ddeddf di,  
pe rhôn' a'i goethi 'n berffaith.  
128 Yn uniawn oll y cyfrifais,  
cafeais llwybrau diffaith.

PE. Rhan 17.

129 Rhyfedd yw dy dystiolaethau,  
f' enaid innau a'u cadwodd.  
130 Egoriad d'air yn oleu caid,  
i weinaiad pwyll a ddysgodd.  
131 Dyheais gan chwant (O Dduw Iôn)  
i'th lân orchymion croyw.  
132 Edrych di arnaf megis ar  
y rhai a gâr dy enw.  
133 Yn ôl d'air cyfarwyddha 'nhoed,  
anwiredd na ddoed arnaf.  
134 O gwared fi rhag trawfedd dŷn,  
a'th orchymmyn a gadwaf ;  
135 Llewyrcha d'wyneb ar dy wâs :  
dîsg i mi fiâs dy ddeddfau.  
136 Dagrau o'm golwg llifo 'wnânt,  
na's cadwant dy gytreithiau.

TSADI. Rhan 18.

137 Cyflawn ydwyt (O Arglwydd Dduw)  
ac uniawn yw dy farnau.  
138 Dy dystiolaethau yr un wêdd,  
ynt mewn gwirionedd hwythau.  
139 Fy ferch i'th air a'm difaodd,  
pan anghofiodd y gelyn.  
140 D'ymadrodd purwyd trwy fawr râs,  
hoffodd dy wâs d'orchymmyn.  
141 Nid anghofais dy gyfraith lân,  
er bod yn fychan f'agwedd.  
142 Dy gyflawnder di cyflawn fydd :  
a'th ddeddf di fydd gwirionedd.  
143 Adfyd cefais, a chyfudd maith :  
dy gyfraith yw 'nigriwch.  
144 Gwnâ im' ddeall cyflawnder gwyw :  
a byddaf syw mewn heddwch.

KOPH. Rhan 19.

145 Llefais a'm holl galon, O clyw,  
a'th ddeddfau, Duw, a gadwaf.  
146 Arnat ti llefais, achub fi,  
a'th llwybrau di a rodiaf.  
147 Gwaeddais, achubais flaen y dîdd,  
wrth d'air yn usydd gwiliains.  
148 Deffroi sy llygaid ganol nôs,  
o achos d'air a hoffais.  
149 Clyw fi'n ôl dy drugaredd dda,  
bywâh fi'n ôl dy farnau.  
150 Arnaf rhai 'fgerol a nefant :  
trofeddant dy gyfreithiau,  
151 Tithau bydd agos, Arglwydd Dduw :  
gwirionedd yw d'orchymion,  
152 Gwyddwn fod dy dystiolaethau,  
gweidi'fscrâu yn gryphon.

RESH. Rhan 20.

153 Gwêl sy nghyfudd, gwared ar gais,  
can's cofais dy gyfreithiau.  
154 Dadleu sy nadol, rhyddhâ fi'n rhôdd,  
yn ôl ymadrodd d'enau.  
155 Ffordd iechydwríaeth sydd bell iawn,  
oddiwrth anghyflawn ddylion,  
Am nad ydynt yn ceisio'n glau.  
mo llwybr dy ddeddfau union.  
156 Dy drugaredd Arglwydd aml yw,  
gwna im' fyw 'n ôl dy farnau.  
157 Llawer sy'm herlid, 'r wyf er hyn,  
yn dilyn dy lân ddeddfau.  
158 Gwelais y traws, a grefyn fu,  
iddynt ddirmygw d'ciriau

## SALM CXX, CXXI, CXXII, CXXIII, CXXIV.

159 Hoffais dy ddeddf, bywhā fi, Arglwydd,  
herwydd dy drugareddau,  
160 Dechreu dy air gwirionedd yw,  
O Arglwydd Dduw y llywydd:  
A'th gyfawn farnedigaethau,  
sydd yn parhāu 'n dragwydd.

## SCHIN. *Rban 21.*

161 Y crŷf ar gam f' erlid a wnâi:  
rhag d'ofn y crynai 'nghâlon.  
162 O blegid d'air wŷf lawen iawn,  
fel pe cawn dylfau mawrion.  
163 Celwydd ffeidd-dra a gas'ais.  
a hoffais dy gyfreithiau:  
164 Saith waith bob dýdd y rhôf it' glôd,  
am fod yn dda dy farnau.  
165 Y fawl a gâr dy air, caint hedd,  
drŵg ni's goddiwedd mo'nyn,  
166 Gwyliais Arglwydd wrth dy iechyd,  
gan wneuthyd dy orchymmyn.  
167 Dy ddeddf cadwodd fy enaid i,  
a hi yn fawr a hoffais.  
168 Am fod fy llwybrau ger dy fron,  
d'orch'mynion nid anghofiai.

## T A U. *Rban 22.*

169 O'th flaen, Arglwydd, nesaed fy nghri,  
dýsg i mi ddeall d'eiriau.  
170 Gwared fi'n ôl d'ymadrodd rhâd,  
del attad fy ngweddiau.  
171 Dy fawl a draetha 'nghenau'n wŷch  
pan ddysgych im' dy ddeddfiau.  
172 Datgan fy nhafod d'air yn rhwydd,  
herwydd dy gyfawn eiriau.  
173 Cymhorthed dy law fi ar gais,  
Dewifais dy orch'mynion.  
174 Ceraias dy iechyd, a'th ddeddf sydd  
lawenyyd mawr i'm calon.  
175 Bo f' enaid byw, a mawl it' rhoed:  
dy farn boed i'm handdifyn,  
176 Crwydralis fel oen, dy wâs O cais,  
can's cofiaiis dy orchymmyn.

## SALM CXX.

I'M hing y gelwais ar f' Arglwydd,  
1 ac ef yn rhwydd a'm clybu.  
2 Duw, gwared fi rhag tafad gau,  
a genau yn bradychu,  
3 Dywaid i mi oes lès neu fael,  
i'w gael, Oh dafod distryw?  
4 Geiriau fel llymion saethau cawr,  
yngŷd a marwawr meryw.  
5 Gwae fi aros honof yn llêch,  
yngŷd a Mesech dwyllgar:  
A chytannedd u'nm gwerthyll,  
yn nhrawfion bebyll Cedar.  
6 Hir y bu f' enaid y sut hoh  
ym mŷsg caseion heddwch.  
7 O's fôn am lonydd a wnâwn i,  
rhyfelai'r rheini 'n rhyffliwch.

## SALM CXXI.

D Isgwyliaf o'r mînyddoedd draw,  
lle 'daw im' help 'wyllygar.  
2 Yr Arglwydd rhŷd im' gymmorth grêf,  
hwn a wnaeth nêf a daear.  
3 Dy dfoed i lithro ef hi's gât,  
a'th Geidwad fydd heb huno:  
4 Wele, Ceidwad Israël lân,  
heb hûn na hepiâr arno.

5 Ar dy law ddeau mae dy Dduw,  
yr Arglwydd yw dy geidwad,  
6 Dy lygru ni'chaiff haul y dýdd,  
a'r nos nid rhŷdd i'lleuad,  
7 Yr lôn a'th geidw rhag pob drwg,  
a rhag pob cilwg anfad:  
8 Cai fyn'd a dyfod byth yn rhwydd,  
yr Arglwydd fydd dy geidwad.

## SALM CXXII.

I Dŷ'r Arglwydd (pan dd'wedent) awn,  
im' llawen iawn oedd gwrando:  
2 Sai'n traed o fewn Caer-Salem byrth,  
yr un ni synth oddiyno.  
3 Caersalem lân ein dinas ni,  
ei sail sydd ynddi 'i hunan,  
A'i phobl sydd ynddi yn gyttûn,  
a Duw ei hun a'i drigfan.  
4 Can's yno y daw y llwythau 'nzhŷd,  
yn unfryd, llwythau'r Arglwydd:  
Tyfioeth Israël a'i drig-fod,  
a chlôd i'w fawr sancteiddrwydd.  
5 Can's yno cadair y farn sydd:  
eisteddfod Dafydd yno.  
6 Erchwch i'r ddinas hedd a mawl:  
a llwydd i'r fawl a'th garo.  
7 O fewn dy gaerau heddwch boed,  
i'th lysoedd doed yr hawddfyd.  
8 Er mwyn fy mrodyr mae'r arch hon,  
a'm cymddygiion hesyd.  
9 Ac er mwyn tŷ'r Arglwydd ein Duw,  
hwn yntc yw'n rhagorol:  
O achos hyn yr archaf fi,  
i ti ddaioni rhadol.

## SALM CXXIII.

T Uedda 'ngolwg at y ne',  
(fy Nuw) dy le trigiannol.  
2 Fel y trŷ gweision eu llygaid  
at ddwylo 'u meistriaid bydol.  
Llygaid llaw-forwyn ar bob tro,  
a ddilyn ddwylo i meistries  
Dîsgwyliwn arnat (Dduw) 'r un wêdd,  
am dy drugaredd gynnes.  
3 Dy nawdd Arglwydd, dy nawdd yn rhôdd,  
dygafom ormodd dirmig.  
4 Gan watwar y tŷn a'r balch iawn,  
yr ym yn llawn boenêdig.

## SALM CXXIV.

D Yma'r amser yn ddi ymgâl,  
gall Israël, fynegi,  
Yr Arglwydd nef oni bai fod,  
a'i arfod gyd a nyni.  
2 Gyd a ni oni bai ei fod,  
pan ddaeth gwrth-draffod dynion:  
3 Pan gododd eu llid i'n poeni,  
llyngasent ni yn fywion.  
4 Y dysfroedd a'n boddafent ni,  
a'n hoes dan gefnlli buan:  
5 Chwyddafent drolom, fel chwydd dŵr:  
fel dyna gyflwr truan.  
6 Bendigaid lôn ei law a droes:  
ac ef ni roes mo honom  
Yn ysglyfaeth i'n rhwygo'n frau,  
i'w gwâg efeiliau llymion.  
7 Ein henaid aeth yn rhŷdd o lŷn,  
fel yr aderyn gwirion,  
Rhwyd yr adarwr torri wnaeth,  
a ninnau aeth yn rhydion.

## SALM CXXV, CXXVI, CXXVII, CXXVIII, CXXIX, CXXX.

8 Ein holl gynhorthwy ni, a'n llwydd,  
fy'n nerth yr Arglwydd hawddgar,  
Yr hwn trwy waith ei ddwyliaw ef,  
a greawdd néf a daear.

## SALM CXXV.

**S**awl a'mddiriedant yn Nuw Iôn,  
byddant fel Seion fynydd,  
Yr hwn ni syf: a'i sylwedd frî  
a bery yn dragwydd.  
2 Fel y laif sail Caersalem frî,  
a'i chylchy mae mynyddoedd:  
Fellyr Arglwydd yn gaer sydd,  
dragwydd cych ei bobloedd.  
3 Er na orphywys rhwyfsg clêdd hir  
yr enwir ar gyflawniaid,  
Rhag i'r rhai cyflawn ystyn llaw,  
i deimlawn campau diriaid.  
4 O Arglwydd Dduw, yn brysur gwnâ  
i bob dîn da ddaioni;  
Sef union attat ti yn glau  
y bydd calonau'r rheini.  
5 Onid y drygddyn Duw a'i gîr  
gyd â gweithwyr anwired;  
Mewn drwg ymdroes, felly ymdroed,  
ar Israel boed tangnafedd.

## SALM CXXVI.

**P**an ddychwelodd ein gwir Dduw Iôn  
gaethi wed Seion sanctaidd;  
Môr hyfryd genym hyn hob un,  
a rhai mewn hûn nefolaidd  
2 Nyni a'n genau yn dda'n gwêdd,  
gorfoedd ar ein tafod  
Ym mhlið cenhedloedd d'wedynt hyn,  
Fe wnaeth Duw drostyn ystod.  
3 Ystod fawr a wnaeth Duw yn wir,  
ein dwyn i'n tir cynnefin:  
O gaethi wed y gelyn llîm,  
am hyn yr ym yn chwerthin.  
4 O cynnull ein gweddillion ni,  
tro adre'r rheini eilwaith,  
Gan dy lif-ddyfroedd fel y gwylch,  
y dehau fych a diffaith.  
5 Y rhai sy'n hau mewn dagrau blin,  
hwynt-hwy dan chwerthin medant:  
Fellyr Arglwydd dan droi y byd,  
dwg ni i gyd i'r mediant.  
6 Y rhai dan wyllo aeth o'r wlad,  
fel taflu hâd 'rhîd gryniau?  
Trwy lawenydd y dônt ynglyd,  
fel casglu yd yn dyrrau.

## SALM CXXVII.

**Y** Tŷ ni adeilado'r Nêr,  
ai'n ofer gwaith y seiri;  
A'r ddinas hon ni's ceidw efo,  
ni thycia gwilio ynddi.  
2 O's bore godi, o's hûn hwyd,  
a byw trwy lwyf oñidio.  
Ofer i gîd: Duw a'r yd hûn  
i bob rhyw un a'i caro.  
3 Wele, y plant a roir i ddîn,  
hiliogaeth yn i'r Arglwydd:  
Ac o'i rôdd ef daw ffrwyth y bru,  
i'w magu mewn sanctaiddrwydd.  
4 Fel gwyl crîf, p'le bynnag y daw,  
ac yn ei law ei saethau:  
Plant yr ieuengïd felly 'maen'  
yn barch o flaen y tadau.

5 Sawl' honi sydd a'i wifr yn llawn,  
mae'n ddedwydd iawn ei foddio:  
Hwy ni's gw'r adwyddir pan ddêl mân  
i'mdiddan â'u gelynion.

## SALM CXXVIII.

**A** Ofno'r Arglwydd gwyn ei syd,  
a rhodio'r hyd ei jwybrau,  
2 Bwyttai o ynnill gwaith dy law,  
a blith y daw i titau.  
3 Dy wraig ar du dy dîs nèn,  
fel pêr winwydden ffrwythlon,  
Dy blant ynglych dy fwrd a sydd  
fel olew-wydd blanhigion:  
4 Wele, fel dyma'r môdd yn wir  
bendithir y gwyr cyfion,  
A ofno'r Arglwydd Dduw yn ddwys,  
rhîdd arno bwys ei galon.  
5 Cei gyflawn fendif gan Dduw Iôn,  
bydd dithau Seion ddedwydd;  
Fel y gwelch a goleu drem,  
Gaersalem mewn llawenydd  
6 Holl ddyddiau d'einioes. Plant dy blant,  
cei weled llwyddiant iddynt,  
Ac ar holl deulu Israël,  
daw hedd diogel arnynt.

## SALM CXXIX.

**L** Lawer gwaith cefais gyftudd mawr,  
Israel yn awr dywed, O'm hieuengïd hyd yr awr hon,  
fe wyr sy mron eu trymmed.  
2 A lawer gwaith y cefais lid,  
o'm gwân ieuengïd allan,  
A blin gyftudd ar lawer tro,  
ac etto ni'm gorfuan.  
3 Yr arddwyr arddent y cefn mau,  
trwy rwygo cwylau hirion:  
4 Y cyfion Nêr torrodd yn frau,  
blêth-didau'r annuwiolion.  
5 Pa rai bymag a roisant gâs  
ar degwch dinas Seion,  
Gw'r adwydder hwynt, cilient i'w hâl,  
y rhai annuwiol creulon.  
6 Byddant fel y glâs wêl a fai  
ar bennau tai yn tyfu,  
Yr hwn sydd, cyn y tyner so,  
yn gwywo, ac yn methu.  
7 Ni leinw'r medelwr ei law,  
ni chair o honaw ronynt:  
I'r casglwr ni's tâl ddim mo'i droi,  
na'i drin, na'i roi mewn rhwymyn:  
8 Fel na bai byth gwiw gan y rhai  
na'r dramwyai heibio,  
D'dwedyd unwaith, Duw a ro llwydd,  
neu, i'r Arglwydd a'ch bendithio.

## SALM CXXX.

**O** R dyfnder gelwais arnat, Iôn,  
2 O Arglwydd tirion goftwng  
Dy glûst, ystyria y llais mau,  
clyw sy ngwediadu teilwng.  
3 Duw, pwys a fai yn d'wyneb di,  
o's creffu ar anwired?  
4 Ond fel y't ofner di yn iawn,  
yr wyt yn llawn trugaredd.  
5 Disgwylais f' Arglwydd, wrth fy rhaid,  
digwyliodd f' enaid arno.  
Rhois fy holl obaith yn ei air,  
f' enaid a gair yn effro.

### SALM CXXXI, CXXXII, CXXXIII, CXXXIV, CXXXV.

Ac an yr Arglwydd, gwylio y bydd,  
fwy nā gwyliedydd disri,  
A edrych blygain bob pen awr,  
a welo'r wawr yn codi.

7 Un wêdd disgwylied Israël,  
yn ddirgel am yr Arglwydd,  
Can's mae nawdd gyd a'r Arglwydd nêf,  
mae ynddo ef rywiowgrwydd.

Ei drugareddau ânt ar llêd,  
fe rydd ymwared in,

8 Fe weryd Israël; fel hyn,  
fo'i tyn o'i holl ddrygion.

### SALM CXXXI.

YN fy nghalon ni. bu falch chwydd,  
O Arglwydd, na diai tynder,  
Ni chodais chwaith drathäus w̄g  
i'm golwg o dra uchder.  
Ac ni rodiai yma a thraw,  
i dreiglaw pethau mawrion;  
Ni fanwl chwiliais am 'wybod,  
rhyfeddod a dirgelion.

2 Gostyngais i'f enaid mewn pryd,  
fel pan ddiddysnyd herlod:  
Fy enaid sydd fel un a fu  
gweidi 'ddiddysfni'n barod.

3 Ond disgwylied tŷ Israël  
wrth wir Imanuel beunydd,  
Sef wrth yr Arglwydd o'r pryd hyn,  
heb derfyn yn dragwydd.

### SALM CXXXII.

O Cofia Ddafydd, fy Nuw Nêr,  
a'i holl wrth-flinder hefyd;

2 Pa lŵ addundon a roes fo  
i Dduw Iago, gan dd'wedyd;

3 Nid â o fewn papell fy nhŷ,  
a'm gwely mwyn ni's dringaf:

4 Ni roddaf i'm dau lygad hûn,  
amrantun chwaith ni chyngaf:

5 Nes caffwyf gyfle yn ddi rûs,  
i Arglwydd grymmus Iago.

6 Wele'n Ephrata clywgom fod  
lle o breswylfod iddo.

Cawson hi ym meusydd y coed.  
7 Pawb doed i'w bebyll tirion,  
Awn ymgrymmwn, pawb usuddhaed,  
wrth ei faingc draed yn union.

8 F'Arglwydd, cyfod i'th esfwyth lŷs,  
a'th arch o rymmus fawredd,

9 Gwifged d'offeiriad gyfion faint,  
gwifged dy Saint wirionedd.

10 Er mwyn Dafydd dy ffyddlon wâs,  
na thŷn dy râs yn lliodiog:

Ac na wrth'neba di er neb,  
mo wyneb dy enneiniog.

11 I Ddafydd rhoes yr Iôn lŵ gwir,  
a chedwir hwn heb wŷredd,

O ffrywth dy gorff rhôf ar dy faingc,  
it' iraidd gaingc i eistedd.

12 Fy neddfau a'm cyfammod i,  
dy feibion di o's cadwant:

O blân i blân, o gaingc i gaingc,  
hwyl ar dy faingc a farnant.

13 Can's fy Arglwydd, o ferch a bôdd,  
a rag-ddewisodd Seion:

I drigo ynddi rhoes ei fryd,  
gan dd'wedyd geiriau tirion;

14 Hon syth fydd fy ngorffwysfa i,  
o hoffder ynddi triga'.

15 Bendithiaf hi â bwyd di ball,  
â'i thlawd diwall o fara.

16 A iechydwrach, medd Duw Nâf,  
y gwifgaf ei heglwyfwr,

A rhoddaf yngennau pob Sant  
o'i mewn, ogoniants fallwyr.

17 Paraf hyn oll, ac felly bydd,  
corn Dafydd yn goronog:  
Felly darperais, gan fy mhwyl,  
brif ganwyll i'm henneiniog.

18 Am ei elynion, o bob parth,  
y gwifgaf warth a gw'r adwydd,  
Paraf hefyd i'w goron fo  
fioleuo: medd yr Arglwydd.

### SALM CXXXIII.

WEle, fod brodyr yn byw 'nghyd  
môr dda, môr hyfryd ydoedd.

2 Tebyg i olew o fawr werth,  
môr bryderth ar y gwifgoedd:  
Fel pe diygynai draw o'r nèn,  
'r hŷd barf a phen offeiriad,  
Sef barf Aron a'i wîsg i gŷd,  
yn hyfryd ei arogliaid.

3 Fel pe diygynai gwlith Hermon  
yn dô dros Seion fynydd,  
Lle rhwymodd Duw fywyd, a gwlith  
ei fendifth, yn dragwydd.

### SALM CXXXIV.

WEle, holl weision Arglwydd nêf,  
bendithiwrch ef, lle'r ydych  
Yn sefyll, yn nhŷ Dduw y nôs,  
a'i gynted diddos trefn-wych.

2 Dyrchewrwrch chwi eich dwylaw glân  
yn ei gyffegr-lân annedd:

A bendithiwrch â châlon rwydd,  
yr Arglwydd yn gyfannedd.

3 Yr Arglwydd, â'i ddeheulaw grës  
hwn a wnaeth Nêf a daear,  
A roddo ei fendifth a'i râs,  
i Seion ddinas hawddgar.

### SALM CXXXV.

O Molwch enw'r Arglwydd Nêf,  
ei weision ef molienwrch,

2 Y rhai a saif i'w dŷ a'i byrth,  
i'n Duw a'i fawrwrwrh cewch.

3 Molwch yr Arglwydd, can's da yw,  
clôd i'r Iôr byw a berthyn:  
Cenwrch ei glôd dros yr holl fyd,  
a hyfryd yw y testyn.

4 Oblegid yr Arglwydd â'i nawdd,  
ef a etholawdd Iago,  
Ac Israël, i'w mîsg y trîg,  
yn deulu unig iddo.

5 Can's mawr yw'r Arglwydd yn ei lŷs,  
mi wa yn hybys hynny.  
Ym mhell uwch law'r holl dduwiau mân,  
mae'r Arglwydd glân a'i allu.

6 Hyn oll a fynodd a wnaeth ef,  
yn uchder Nêf eithafon:

A'r ddeear, ac yn y môr cau,  
a holl ddyfnderau'r eigion.

7 O eithaf daear cyfyd tarth,  
daw'r mîllt o bob parth hwythau,  
Ac oer dymhestoedd, gwlâw a gwint,  
a godynt o'i drysorau.

8 Yn nhîr yr Aipht, dynion, a dâ,  
â llawer plâ y t'rawodd,

## SALM CXXXVI, CXXXVII.

Cyntaf-anedig o bob un,  
 a'i law ei hun a laddodd.  
 9 Ith ganol di, O Aipht greulon,  
 rhoes Duw arwyddion rhyfedd,  
 Ar Pharo a'i holl weision i gŷd :  
 dûg trwy'r holl fyd orfoledd,  
 10 O nerth ei fraich efe a wnaeth,  
 lawer cenhedlaeth feirwon :  
 A laddodd lawer yr un wêdd  
 o ben brenhinedd cryfion.  
 11 Sef o'r Amoriaid Sehon fawr,  
 ac Og, y cawr o Bafan :  
 A'r un ddinnyfriad arnynt aeth,  
 a holl frenhiniaeth Canan.  
 12 A'u holl diroedd hwynt-hwy i gŷd :  
 gyd a'u holl fywyd bydol,  
 I Israël ei roi a wnaeth,  
 yn etifeddiaeth nerthol.  
 13 Dy enw (O Arglywydd) a'th nerth cry',  
 a bery yn dragwywyd,  
 Ac o genedl i genhedlaeth  
 dy goffadwriaeth, lywydd,  
 14 Can's ar ei hobl y rhŷdd ef farn,  
 yr Arglywydd cadarn cyfion,  
 Ae yn ei holl wylodraeth bur,  
 bydd dosfur wrth ei weision,  
 15 Y delwau oll, gwaith dwylaw yn',  
 a dyfais dŷn anffyddlon.  
 O aur ac arian, dyn a'u gwnaeth,  
 o hil cenhedlaeth weigion.  
 16 O waith dŷn, genua rhŵth y sydd,  
 heb ddim lleferydd iddyn ;  
 Ac mae llun llygaid mawr ar llêd,  
 a'r rhai'n heb weled gronyn ;  
 17 Dwy glûst dynion sydd i bob un,  
 heb glywed mymrwn etto,  
 Eu safn yn ehangu, ac ni chaid  
 na chwŷth nag enaid ynddo.  
 18 Un fôdd a'r delwau fydd y rhai  
 a'u gwnelai hwynt a'u dwylo,  
 Ac nid yw well nâ'r rhai'n yr un,  
 ynddun a ymdelriedio.  
 19 Tŷ Israël, na choeliwch chwi,  
 tŷ Aron, Lefi utudd,  
 20 I'r rhai'n ddim, ond i'r Arglywydd nê',  
 bendithiwrch e'n dragwydd.  
 21 Bendithier fyth mawr Enw'r Iôn,  
 o Seion hên a barchem,  
 Bendithier, moler ei enw fo,  
 fy'n trigo yng Nghaer-Salem.

## SALM CXXXVI.

Môlwrch yr Arglywydd, can's da yw,  
 molienwch Dduw y llywydd,  
 Can's ei drugaredd oddi frŷ,  
 a bery yn dragwyddydd.  
 2 Molwrch chwi Dduw y duwiau'n rhwydd,  
 3 ac Arglywydd yr arglywyddi,  
 4 Hwn unig a wnaeth wyrthiau mawr,  
 trwy ei ddirfawr ddaioni,  
 5 Gwnaeth a'i ddoethineb nêf uwch ben,  
 6 a'r ddaearen a'i dyfredd,  
 Y rhai yw prif sylwedd y bŷd,  
 ac i gŷd o'i drugaredd.  
 7 'R hwn a wnaeth oleuadau mawr,  
 o'r nêf hyd lawr a'i fawredd ;  
 8, 9 Haul y dŷdd, a'r lleuad y nôs,  
 i ddangos ei drugaredd.  
 10 'R hwn a d'rawodd yr Aipht i'w ddig,  
 a'r blaen-anedig ynddi,

11 Ae a ddûg Israël i'r daith,  
 ac ymaith o'r holl gyni.  
 12 A hyn trwy law grêf, a braich hâr,  
 o'r ym ei wir ogoneedd :  
 13 A holldi'r môr côch yn ddwy ran,  
 o anian ei drugaredd.  
 14 Dûg Israël i'r lân yn wŷch,  
 fel dyna ddrôdla gorfoledd :  
 15 Ysgyttio Pharo, a'i holl lu,  
 a hyn fu ei drugaredd.  
 16 A dwyn ei bobloedd yn ddi-chwŷs,  
 trwy wledydd dyrys anian :  
 17 Taro brenhinoedd er eu mwyn,  
 ac felly 'dwyn hwy allan.  
 18 Lladd llawer brenhin cadarn llon,  
 19 sef Sehon yr Amoriaid :  
 20 Ac Og o Bafan yn un wêdd,  
 o'i fawr drugaredd dihaiid.  
 21 A'e holl diroedd hwynt-hwy i gŷd,  
 eu rhoi yn fywyd bydol  
 22 I Israël ei wâs a wnaeth,  
 yn etifeddiaeth nerthol.  
 23 Hwn i'n cystud a'n cofiodd ni,  
 o'i fawr ddaioni tirion.  
 24 Ac a'n hachubodd yn ddiswrth  
 oddiwrth ein holl elynion.  
 25 Yr hwn a ymbyrth bob rhyw gnawd,  
 yn ddiawl o'i drugaredd,  
 26 Clodforwch Dduw, brenhin y nêf,  
 rhowch iddo ef ogoneedd.

*Molwrch Arglywydd yr arglywyddi,  
 uwchben pob rbi o Fawredd,  
 Dduw'r duwiau, Ior uwchben pob Iôn,  
 a ffynnon y drugaredd.*

## SALM CXXXVII.

P An oeddym gaeth yn Babilon,  
 ar lân prîf afon groyw,  
 Mewn coffadríaeth am Seion,  
 hidlafon ddagrau'n loyw.  
 2 Rhoddafom ein telynau 'nghrôg,  
 ar goed canghenog iorion,  
 Lle yr oedd prenniau helyg plân,  
 o ddeutu glân yr afon.  
 3 Y rhai a'n dûg i garchar caeth,  
 i ni yn ffaeth gofynnen,  
 A ni'n bruddion, gerddi Seion,  
 ysywaeth peth ni's gallen.  
 4 O Dduw, pa fôdd y canai neb,  
 (rhomae ateb yn ystoriol)  
 I chwi o gerdd ein Harglywydd Dâd,  
 a ni mewn gwylad efronol ?  
 5 O's â Caersalem o'r côf mau,  
 anghofied dehau ganu ;  
 6 Na throed fy nhafod, oni bydd,  
 hi'n ben llawenydd imi.  
 7 Cofia di Dduw, blant Edom lem,  
 yn nydd Caersalem hawddgar :  
 Noethwch, dinoethwch (meddei rhai'n)  
 ei mûr a'i main i'r ddaear.  
 8 Bydd gwyn eu bŷd i'r fawl a wnei  
 i ti, merch Babel rydost,  
 Yr unrhyw fesur, gan dy blau,  
 i ninnau fel y gwnaethost.  
 9 Y fawl a gym'r o dy blant di,  
 bo'r rheini fendigedig,  
 Ac a darawo'r eppil tau,  
 a'u pennau wrth y cerrig.

## SALM

## SALM CXXXVIII.

**R** Höf sawrglod i ti, fy Nuw lôn,  
o ddyfnder càlon canaf :  
Yngwydd holl Angylion y nêf,  
a'm hoflef y'th foliannaif.  
2 Ymgrymmaf tu a'th sanctaidd dŷ,  
dan ganu o'th drugaredd,  
A'th enw mawr uwch-law pob peth,  
a'th air difêth wirionedd.  
3 Y dydd y gelwais arnai ti,  
gwendewaifft yn fuan :  
Yno y nerthaifft â chref blaif,  
fy enaid i oedd egwan.  
4 Doed brenhinoedd y ddaear hon,  
a rhoen it' union foliant :  
Addolent oll ein gwr-Dduw ni,  
can's d'eiriau di a glywsiant.  
5 Yn ffyrdd yr Arglwydd yr un wêdd,  
ac am ei Fawredd canant :  
Gan ddangos trwy'r holl fyd ei faint,  
a maint yw ei ogoniant.  
6 Uchel yw'r lôn, etto fe wêl  
yr ufudd ifel ddynion :  
A gwêl o hirbell, er eu plâu,  
y beilch a'r gwarrau sythion.  
7 Pe bai yn gysyng arnai'r bŷd,  
ti a'm bywlleyd eilwaith :  
Gan ystyn llaw i ddwyn dy wâs  
oddwrth rai atcas ymaith.  
8 Yr Arglwydd a gyflawnna â mi,  
Duw, dy ddaioni rhag-llaw,  
Ac yn dragwyd y mi dôd :  
na wrthod waith dy ddwylaw.

## SALM CXXXIX.

**A** Rgwydd, manwl y chwiliaifft fi,  
da y'm hadwaen hefyd :  
2 Eisteddiad, codiad, gwyddost hyn,  
a'm meddwl cyn ei dd'wedyd.  
3 Yr wŷd yngylch fy lloches i,  
a'm ffyrdd fydd i ti'n hybys :  
4 Nid oes air na's gwyddost ei fôd  
ar flaen fy nhafod ofnus.  
5 O'm hól ac o'm blaen y'm lluniaifft,  
dy law a ddodaifft arnaf :  
6 Gwybodaeth ddieithr yw i mi,  
a'i deall hi ni's medraf :  
7 I ba le'r âf fi i roi tro,  
i'mguddio rhag dy Ysbryd ?  
I ba le ffoaf rhag dy wŷdd,  
trwy gael ffordd rwydd i lathlyd ?  
8 O's dringaf tu a'r nefoedd frŷ,  
wyt yno i'th dý perffaith :  
O's tu a'r dyfndwr, goftwng tro,  
yr wyt ti yno eilwaith.  
9 Pe cawn adenyydd bore wawr,  
a myn'd i fôr mawr anial,  
10 Yno bydd dy ddeheulaw di,  
i'm tywys i a'm cynnal.

11 A phe meddyliwn, yr ail dro,  
ymguddio mewn tywylwg.  
Canol y nôs fel hanner dydd,  
môr oleu fydd yn d'olwg.  
12 Nid dim tywylach nôs i ti  
nag yw goleuni hafddydd,  
A'r ddau i ti mnaent yr un ddull,  
y tywyl a'r goleuddydd.  
13 Da'gwyddost y dirgelwch mau,  
f'arenau a fediennaifft,

Ynghrôth fy mam pan oeddwn i,  
yno tydi a'm cuddiaifft.  
14 Can's rhyfedd iawn y gwnaethbwyd fi,  
a' thwaith di sy ryseddod,  
A'm henaid a wyr hynny'n dda,  
a hon a wnaâ it'fawrglod :  
15 Ni chuddiwyd fy ngrŷm rhagot ti,  
pan wnaethost fi yn ddîrgei,  
Fel llunio dŷn o'r ddaear hon,  
o fewn pridd eigion ifel.  
16 Dy lygaid gwelfant fy nhreñn waei,  
cyn i mi gael perffeithlun :  
'R oedd pob peth yn dy lyf yn llawn,  
cyn bod yn iawn un gronyn.  
17 Môr anwyl dy feddyliau ym',  
mor fawr yw fum y rheini :  
18 Wrth fwrv, amlach gwn eu bod  
nâ'r tywod o risedi.  
Myfyrio pan ddeffrôwyd fi,  
'r wŷf gyd â thi yn gwblol.  
19 O Dduw, pa achos yn dy lid,  
na leddid yr annuwiol ?  
O Dduw, pe coibid rhai o'r rhain  
y fydd yn arwain traha,  
Wrth y gwaedlyd fo gaid d'wedyd,  
Dydi dôs oddi yma.  
20 Y rhai am danad, f' Arglywydd cu,  
fy'n traethu pethau 'fgeier,  
A'th elynion dibris eu llw,  
cym'rasant d'enw'n ofer.  
21 Ond câs yw gennys, O Dduw lôn,  
dy holl gafeion gwaedlyd ?  
Ond ffiaindi gennys fi bob dŷn,  
a ai yn d'erbyn hefyd ?  
22 A llawn gâs y cafeais hwynt,  
ynt fel ar bwyt gelynion.  
23 O chwiliai fi, O Dduw, yn hŷ,  
cei hynny yn fy nghâlon.  
Duw, prawf fy meddwl i'n fy mol,  
24 Oes ffordd annuwiol gennys ;  
Gwêl fi, tywys, dŵg fi yn f' ôl,  
dôd ffordd dragwyddol ymy.

## SALM CXL.

**R** Hag y gŵr drwg gwaredd fi (Nêf)  
rhag gŵr y prawfder efrudd,  
2 Rhai sy'n bradychu yn ddîrgei,  
a chasglu rhyfel beunydd.  
3 Fel colyn farph yn llithrig wau,  
yw eu tafodau llymmion :  
Gwenwyn yr asp fydd yn parhau  
dan eu gwefusau creulon.

4 Rhag y dŷn drwg, rhag y gŵr traws  
sy'n myfyri lliaws faglau.  
Duw, gwaredd fi, rhag gofod brâd,  
yngylch fy ngwtaid lwybrau.  
5 Y beilch euddafant fagl a rhwyd,  
wrth hon gofodwyd tannau ;  
Ar draws fy ffyrdd i ddâl fy nroed :  
yng'hûdd y rhoed llinynnau.

6 D'wedais wrth f' Arglywydd, Fy Nuw wŷd,  
tyn fi o'u rhwyd a'u maglau ;  
O gwrando'n fuan, f' Arglywydd nêf,  
ar brudd lêf fy ngweddiau.  
7 Fy Arglywydd yw fy nerth i gŷd,  
a'm coel a'm iechyd càlon ;  
Ti a roist gûdd dros fy mhen mau,  
yn nôdd yr arfa gloywion.

8 F'r dŷn annuwiol, Duw, na âd  
dymuniad drwg ei'willys ;

Rhag

SALM CXLI, CXLII, CXLIII.

1 Rhag ei wneuthur eso yn grý';  
a'i fyn'd yn rhý drahaus.  
2 A'u holl ddymuniad drwg i mi,  
a'u rhegain weddi greulon,  
Y rhai'n yn llwyr a ddônt ym mhen  
y capten o'm caseion.  
10 Syrthied arnynt y marwor tân,  
ac felly llosg in' ymaith,  
Bwrier hwyt mewn ceufosydd nant,  
fel na chyfodant eilwaith.  
11 Dýn llawn siarad fydd anwaftad,  
ni eistedd ef yn gryno:  
A drwg a ymlid y gwr traws,  
o hyn mae'n haws ei gýwmpo.  
12 Da gwn y rhýdd yr Arglywydd dál  
i ddíal cam y truan;  
Ac y iawn farna y dýn tlawd  
sy'n byw ar gwardawf fechan.  
13 Y rhai cyflawn trwy yr holl fýd,  
dy enw a gyd foliannant,  
A'r holl rai union, heb ofn neb,  
o flaen dy wýneb trigan,

SALM CXLI.

O Brysia, Arglywydd, clyw fy llais,  
o brysur gelwais arnau;  
O'r mân lle bwyl, gwrando fy llêf,  
a doed i'r néf hyd attad.  
2 Fy ngweddî ger dy fron a ddaw,  
gan godi dwylaw'n uchel,  
Yn arogl darth ac aberth hwyr,  
fel union ddiwyr lefel.  
3 O Arglywydd, gosod, rhag gair ffaeth,  
gadwrach ar fy ngenau;  
Rhag im' gam-dd'wedyd, gosod ddôr  
ar gyfor fy ngwesfuau.  
4 Na phwyfa 'nghâlon at ddrwg beth,  
yngnyd-bleth a'r annuwiol:  
Nac mewn cýd-fwriad gwaith neu wêdd,  
rhag twyl eu gwledd ddaienteithiol.  
5 Boed côsb a cherydd y cyflawn,  
fel olew gwerthlawn arnaf:  
Ni friw fy mhen, po mwyafo,  
mwy trosto a weddias.  
6 Eu barnwyr pe bwrid i'r llawr,  
ar greigiau dirfawr dyrys:  
Gwrandawent ar f' ymadrodd i,  
a chlywent hi yn felys.  
7 Fel darnau cynnud o goed mân,  
a fwrian 'r hyd y ddæcar,  
Mae'n hesgyrn ninnau yr un wêdd,  
ym mron y bêdd ar wasgar.  
8 Mae 'ngolwg a'm holl obaith i,  
Duw, arnat ti dy hunan:  
Duw, bydd di'n unig yn fy mhlaid,  
na fwyr f'enaid allan.  
9 Cadw fi, Arglywydd, rhag y rhwyd,  
hon a olodwyd ymy,  
Telm yr annuwiol, hoenyn main,  
rhag ofn i'r rhai'n fy magly.  
10 Yr anwireddŵyr 'b ado un,  
cwympant eu hun i'w rhwydau,  
Ymddiniad ynot ti a wna;

ac felly diangaf innau.

SALM CXLII.

R Hois weddi ar yr Arglywydd néf,  
yn llým fy llêf ymbiliais;  
2 A'm holl fyfyrdd ger ei fron,  
o'm calon y tyweltais.

3 Ond pan syneigais it' fy nghur,  
a'm dolur o'm meddyliau,  
Da gwyddit ti bob ffordd a'r mân,  
y rhoefan' i mi faglau.

4 O'r tu deau nid oedd im' neb,  
trown f' wýneb, a'm hadwaenai,  
Na nawdd, na neb, o du'n y byd,  
ty mywyd a'mgeleddai.

5 Arnad llefais, wrthyd d'wedais,  
Duw, ti a ydwyd union:  
Fy nghwbl obaith wyt ti yn wir,  
a'm rhan yn nhir y bywion.

6 O ystyr, Arglywydd, faint fy nghri,  
wýf mewn trueni diglon:  
Rhag fy erlidwyr gwared fi,  
mae'r rheini yn rhý gryphon.  
7 O garchar caeth, fy enaid týn,  
dy enw am hyn a folaf:  
Pan weler dy fod ar fy rhan,  
y cyfion twysgan attaf.

SALM CXLIII.

E Rglywyd fy arch, O Arglywydd mân,  
Wyt arnad yn gweddio:  
O'th wirionedd, a'th gyflawnedd,  
gofynnaf it' fy ngwando.  
2 Ac na ddos i'r farn a'th wâs gwael,  
(pa lès im' gael cyflawnider?)  
Am nad oes dýn byw ger dy fron  
yn gyfion pan ei teimler.  
3 Y gelyn a erliddodd f' oes,  
mewn llwch y'm rhoes i orwedd:  
Fel y rhai meirwen a fai'n hir,  
is tywyl dir, a'u hannedd.  
4 Yna fy ylbryd, mewn blin ing,  
a fu mewn cyfing-gyngor:  
5 Ac ar fy nghâlon drom daeth braw:  
ond wrth fyfyrriaw rhagor,  
Mi a gofiais y dyddiau gýnt,  
a helynt gwaith dy ddwylo,  
Am hyn myfyriais, fy Nuw Nâf,  
am hyn myfyriaf etto.  
6 Fy nwyllaw attaf rhois ar lêd,  
lle 'mae f' ymddiried unig,  
Am danad f' enaid fydd yn wir,  
un wêdd a'r tir sychedig.  
7 Yn ebrwydd gwrando fi yn rhôdd,  
O Arglywydd, palodd f' ylbryd:  
Rhag i mi fyned i'r pwll du,  
fel rhai a ddarfu 'bywyd.  
8 Par im' ar frýs gwydded dy nawdd,  
can's ynot hawdd y credais:  
A dyfog im' radio dy ffyrdd rhâd,  
can's f' enaid attad codais.  
9 A gwared fi fy Nuw, a'm Hiôn,  
rhag fy ngelynion a夫rus,  
Am fod fy lloches gyd a thi:  
10 O dyfog i mi d'ewyllys:  
Can's tydi ydwyd y Duw mau,  
boed d'Ysbryd tau i'm tywys  
Ar yr uniondeb yn y tir.  
dyna dy wir ewyllys.

11 Duw, er mwyn d' enw fi bywhâ,  
a helpa f' enaid tyner,  
Allan o ing, Duw, cais ei ddwyn,  
ac er mwyn dy gyflawnder.  
12 A gwnâ ar yr elynol blaidd,  
caseion f' enaid, gerydd:  
Difetha hwyt er mwyn dy râs,  
can's mi wýf dy wâs usydd,

SALM

SALM CXLIV, CXLV, CXLVI.

SALM CXLIV.

**B**endigaid fo'r Arglwydd fy nerth,  
môr brydferth yr athrawa  
Fy nwylo i ymladd, a'r un wêdd,  
fy mysedd i ryfela.  
2 **F**y nawdd, fy nerth, fy nûg, fy nghred,  
fy nhw'r, fy ymwaed unig;  
Can's trwyddo ef fy mhobl a gâf  
danaf yn oftyngedig.  
3 **P**a beth yw dîn, dywaid, O Dduw,  
pan fyddit i'w gydnabod?  
**A** mab dîn pa beth ydyw fo,  
pan fych o hono'n darbod?  
4 **P**a beth yw dîn?, peth yr un wêdd  
â gwagedd heb ddim' hono;  
**A**i ddyddiau'n cerdded ar y rhôd,  
fel cysgod yn myn'd heibio.  
5 **G**oftwng y nefoedd, Arglwydd da,  
ac edrych draha dynion:  
Duw, cyffwrdd â'r mynyddoedd frî,  
gwnâ iddynt fygu digon,  
6 **I**'w gwasgar hwynt, gyrr fellt i wâu,  
i'w lladd gyrr saethau tanbaid.  
7 **D**isgyn, tyn fi o'r dyfroedd mawr;  
hyn yw, o law'r estroniaid.  
8 **D**uw, gwared fi, geneuau'r rhain  
a fydd yn arwain gwegi:  
**A**'u deheu-law fy yr un bwyll,  
ddeheulaw twyll, a choegni.  
9 **I** ti, Dduw, canaf o fawrhâd,  
yn llafar ganiad newydd,  
Ar nabyl, ac ar y deg-tant,  
cei gerdd o foliant beunydd.  
10 **D**uw, i frenhinoedd, rhoi a wnaeth,  
ei swraeth at iawn-reol:  
Dan ymwared Dafydd ei wâs,  
rhag cleddyf cas niweidiol.  
11 **D**uw, gwared, achub fi wrth raid,  
rhag plant estroniaid digus,  
A'u safn yn llawn o ffâlfer gau,  
a'u dehau yn dwyllodrus.  
12 **B**ydd ein meibion fel planwydd cu  
o'r bôn yn tyfu'n iraidd:  
**A**n merched ni fel cerrig nâdd,  
mewn conglau neuadd sanctaidd.  
13 **A**n conglau'n llawnion o bob peth,  
a'n safaid, difeth gynnydd,  
Yn fileodd (mawr yw'r llwyddiant hwn)  
a myrddiwn i'n heolydd.  
14 **A**n hychen cryfion dan y wêdd  
yn hywedd, ac yn llonydd:  
Hêb dorr na forriant i'n mysg ni,  
na gwaeddi i'n heolydd:  
15 **D**edwydd ydyw y bobl y fy  
a phob peth felly ganddynt:  
Bendigaid yw'r bobl y rhai'n yw  
a'r Arglwydd yn Dduw iddynt.

SALM CXLV.

**M**i a'th fawrygaf di, fy Nuw,  
can's tydi yw fy llywydd,  
Bendithio dy enw byth a wnaâf,  
mi a'i molaf yn dragwydd.  
2 **D**y enw a folaf fi bob dîdd,  
a'th glôd â fydd heb orphen.  
3 **Y**r Arglwydd fydd glodfawr heb wêdd,  
a'i fawredd sydd heb ddiben.  
4 **C**enedl wrth genedl a rônt fawl  
i'th ogoneddawl wyrthiau;  
Gan dânu dy nerth 'r hîd y byd,  
a d'wedyd dy gynheddau.

5 **A**m dy ogonedd mawr, fy Nâf,  
mynegaf, a'th gadernid.  
6 **S**ôn am dy bethau ofnadwy,  
gwnânt hwy a minnau hefyd.  
7 **L**liwyr goffadwriaeth 'honor ti,  
a'th fawr ddaioni 'draethant;  
Ac o'th gyflawnder, fy Nuw Iôn,  
â llafar dôn y canant:  
8 **S**ef graflawn yw ein Harglwydd ni,  
ac o dôsturi rhyfodd:  
Hwyr ac anniben yw i ddig;  
llawntrydig i drugaredd.  
9 **D**a yw yr Arglwydd i bob dîn,  
a'i nodded sy'n dycciannol:  
Ac ar ei holl weithreodoedd ef  
daw nawdd o'r nêf yn rafol.  
10 **D**y holl weithreodoedd di i'th Iwydd,  
O Arglwydd, a'th glodforant:  
Dy wyrth pan welo dy Saint di,  
y rheini a'th fendithiant:  
11 **G**an sôn am drugaredd a grâs  
dy d'yrnas, a'i chadernid:  
Fel dyna'r gerdd sydd yn parhâu,  
yn eu geneuau hyfryd.  
12 **F**el y paront trwy hyfryd glôd,  
gydnabod â'th deyrnasiad,  
A'th nerth ym myïg holl ddynol blant,  
a'th lawn ogoniant gwaftad.  
13 **B**renhiniaeth dy d'yrnas di frî,  
a bery yn waftadol,  
A'th lywodraeth o oed i oed,  
hon a roed yn dragwyddol,  
14 **Y**r Arglwydd cynnal ef yn llon,  
y rhai fy mron eu cwympod:  
Ac ef a gyfyd bawb yn wir,  
a'r a oftyngir isod.  
15 **W**eles, mae llygaid yr holl fôd  
yn difgwyd wrthyd, Arglwydd,  
Tithau a'u porti hwynt i gyd,  
bawb yn ei bryd yn ebrwydd.  
16 **A**phan agorech di dy law,  
o honi daw diwall-faeth:  
D'ewyllys da yw ymborth byw,  
a hynny yw eu lluniaeth.  
17 **H**oll ffyrdd yr Arglwydd, cyfion ynt,  
a'i wyrthiau dydnt sanctaidd:  
18 **A**gos iawn i bawb ydyw fo,  
a eilw arno'n buraid.  
19 **S**ef at y gwîr a'i hofnant ef,  
fo glyw eu llêf i'w gwared,  
Fo rydd eu h'willys hwynt a'u harch,  
o'i wir barch, Iôn gogoned.  
20 **P**ob dîn a garo 'r Arglwydd nêf,  
caiff ganddo ef ei 'mddiffyn:  
A chan ddifetha rhudd oes fer,  
i bob yfgele'r cyndyn.  
21 **F**y enaid traethed fenthid rwydd,  
a mawl yr Arglwydd nefol:  
A phob cnawd rhoed i'w enw, y Sant,  
ogoniant yn dragwyddol.

SALM CXLVI.

**F**Y enaid, mola'r Arglwydd nêf,  
2 Mi a'i molaf ef i'm bywyd;  
Dangosaf glôd i'm Harglwydd Dduw,  
tra gallwyf fyw na symmyd.  
3 Na wñewch hyder ar d'wyfogion,  
nae ar blant dynion bydol:  
Am nad oes ynddynt hwy i gyd,  
na help na iechyd nerthol.

SALM CXLVII, CXLVIII.

4 Pan el y flun o'r genau gwael  
a'r corph i gael daearlan  
Felly dychwel, fel dyna'r dydd  
y derfydd ei holl amcan.  
5 Y pryd hwn gwyn ei fydd ei  
a roddo ei holl obaith  
Ar Dduw Iago yn gymmorth da,  
pan el oeddyma ymaith.  
6 Hwn Dduw a wnaeth nêf, daear, môr  
a'r holl ystôr sydd ynddynt:  
Hwn a saif yn ei wir ei hun,  
pryd na bo an o honyt.  
7 Yr hwn i'r gwael a rydd farn dda,  
a bara i'r newynllyd,  
Fe ollwng Duw y rheidus gwâr,  
o'i garchar ac o'i gaethyd.  
8 Yr Arglwydd eg yr lygaid dall,  
ef a dyr wall gwael ddyntion:  
Yngheddwr gwan mae'n Harglwydd ni,  
a hoffi y rhai cyfion.  
9 Dieithriaid, a'r ymddifad gwân,  
a'r weddw druan unig,  
Dw a'u pyrth: ond dyryfu wnâi  
holl ffyrdd pob rhai cythreulig:  
10 Yr Arglwydd yn teyrnafu a fydd,  
dy Dduw tragywydd Seion:  
O oes i oes pery dy lwydd:  
molwch yr Arglwydd tirion.

SALM CXLVII.

Molwch yr Arglwydd, can's da yw,  
canu i Dduw yn llafar:  
O herwydd hyfryd yw ei glêd,  
a da yw bod yn ddiolchgar.  
2 Caerfalem dinas gyflawn fydd,  
yr Arglwydd fydd i'w darpar:  
Gan galglu Israël ynglyd,  
a fu trwy'r bŷd ar wasgar.  
3 Yr unig Arglwydd sy'n iachâu,  
yn rhŷdd o friwiau'r galon;  
Yr Arglwydd rhwym eu briwiau'n iawn  
y rhai dolur-lawn cleifion.  
4 Yr Arglwydd fydd yn rhiso'r fêr,  
a phob rhyw nifer 'honynt:  
Ef a'u geilw hwyn yll yn glau,  
wrth briod enwau eiddyn.  
5 Mawr yw ein Harglwydd ni o nerth,  
a phrydferth a rafoldeb;  
Ac mae'n bell iawn uwch ben pob rhif,  
fôn am ei brif ddoethineb.  
6 Yr Arglwydd unig fydd yn dâl  
i gynnal y rhai gweinaiad.  
Ac ef a oftwn yd y llawr  
y dorf fawr annuwioliaid.  
7 Cenwch i'r Arglwydd mal y gwêdd,  
clodforedd iddo 'berthyn:  
O cenwch, cenwch gerdd i'n Duw,  
da dydw gyd a'r dynol.  
8 Hwn a chymylau toes y nèn,  
a gwlâw'r ddaearen gwlychodd,  
I wêl gwnaeth dyfu ar y frôn,  
a llyfiau i ddyntion parodd.  
9 Hwn i'r anifail ar y brynn  
a rydd yr hyn a'i portho:  
Fe bortha gywion y cigfrain,  
pan fo'nt yn llefain arno.  
10 Nid oes ganddo mewn grîm un march,  
na serch, na pharch, na phlefer:  
Nac mewn esgair, neu forddwyd gŵr,  
fel dyna gyflwr qfer,

11 Yr Arglwydd rhoes ei serch ar ddŷn,  
yr hwn y sy'n ei hoffi:  
Ac fydd yn dîfgywl cael ei nawdd,  
caiff hwn yn hawdd ddaioni;  
12 O Caerfalem, gyflawn o lwydd,  
molianna'r Arglwydd eiddod;  
O Seion-Sanctaidd, dod un wêdd  
i'r Dduw gledforedd barod;

13 Herwydd yr Arglwydd, a'i fawr wyrth,  
a wnaeth dy byrth yn gryfion:  
A rhoes ei fendifith, a thyciant,  
ym mhliith dy blant a'th Wyrion.  
14 Hwn a roes heddwch yn dy fro,  
fel y cynnyddo llwyddiant,  
Ac a ddiwallodd yn eich plith,  
o frasder gwenith, borthiant.  
15 Ei orchymmyn ef a ddenfyn,  
o'i ddawnfawr air cymhesur,  
Hwn ar y ddaear â ar lêd,  
ac yno rhêd yn brysur.  
16 Eirch i'r eira ddisgyn fel gwlân:  
eirch rŵl fel tân, fel lludw  
17 Eirch iâ, fe ddaw yn defyll cri;  
pwyr'erys oerni hwnnw?

18 Wrth ei air eilwaith ar ei hynt,  
fe bair i'r gwînt och'neiddio  
I doddi'r rhain, ac felly bydd  
i'r holl afonydd lifo.  
19 Grîm ei air, a'i ddeheulaw grîf,  
a ddengys ef i Iago,  
A'i ffyrdd a'i farn i Israël,  
a'r rhai a ddêl o hono.

20 Ni wnaeth efe yn y dull hwn,  
a neb rhyw naflawn arall:  
Ni wyddent farnau'r Arglwydd nêf,  
O molwch ef yn ddiball.

SALM CXLVIII.

O Molwch yr Arglwydd o'r lîf,  
rhwch lef i'r uchel leoedd.  
2 Molwch mewn holl angylion nêf,  
molwch ef ei holl luoedd.  
3 Yr haul, a'r lleuad, a'r holl fêr,  
y gloywder, a'r goleuni,  
4 Nêf y nesoedd, a'r ffurfafen,  
a'r deirf uwch ben y rheini.  
5 Moliant enw'r Arglwydd nêf,  
hwyt a'i air ef a wnaethbwyd.  
D'wedodd y gair, a hwy fel hyn  
ar ei orchymmyn crêwyd.  
6 Rhoes reol iddynt i barhâu,  
fel deddfau byth i'w dilym:  
Rhœs bob peth yn ei le'n ddi o's,  
nad elo dros ei derfyn.  
7 Molwch yr Arglwydd o'r ddaear,  
chwychwi yfrywgar ddreigiau,  
8 Y tân, a'r cenlysg, eira, a tharth,  
a'r gwînt o bob parth yntau,  
9 Mynyddoedd, bryniau, ffrywthlon wîdd,  
a'r tirion gedrwîdd brigog,  
10 An'feiliaid, ac ymluigiaid maes,  
ac adar llaes afgellog.  
11 Brenhinoedd ddaear, barnwyr bŷd,  
swyddwîr ynglyd a'r bobloedd,  
12 Gwîr ieuangc, gwîryfion, gwîr hên,  
pob bachgen ym mhob oesoedd.  
13 Molant ei enw ef ynglyd,  
uchel a hyfryd ydoedd,  
Ei enw ef fydd uchel ar  
y ddaear oll, a'r nesoedd,

S A L M C X L I X , C L .

14 Can's corn ei bobl a ddyrchafawdd,  
yn fawl a nawdd i'r eiddo,  
I Israël ei etholedig,  
a drig yn agos atto.

S A L M C X L I X .

C Enwch i'r Arglwydd, ac iawn fydd,  
ryw ganiad newydd rhyfedd :  
A chlywer ynglyn'leidfa'r Saint,  
ei fawr faint a'i orfoledd.  
2 Boed Israël lawen a firaeth,  
yn Nuw a'i gwnaeth yn ddibrin :  
A byddant hyfryd blant Seion,  
yn Nuw eu tirion frenhin.  
3 Molant ei Enw ar y bell, a thympanell, a thelyn ;  
4 Can's boddion yw i'w bobl i gŷd,  
rhydd iechyd i'r lledneis-ddyn.  
5 I'w Saint ef doed gorfoedd iawn,  
a hon yn llawn gogoniant,  
Yn eu gwelâu, (yn llawen ddull)  
ac yn eu 'stefyll canant.  
6 Yn eu genau bydd cerdd bob awr,  
ein Duw a'i fawr ryfeddod,  
Ac yn eu dwylaw bydd i'w drin,  
y cleddyf deufin parod.  
7 Ar estroniaid i'n dial ni,  
ac i gosb-boeni'r bobledd :

8 I roi mewn caethder cadwyn dre,  
i'r wrymo eu brenhinoedd.

I roi eu pendefigion chwyrn,  
mewn gefyn heim ffyrniq,  
9 I wneuthur arnynt union farn,  
yn gadarn 'sgrifenedig ;  
Dyma'r glân arderchowgrwydd fydd  
i'w saint y fydd yn credu :  
Clodforwch oll yr Arglwydd nêf,  
O molwch ef am hyunny.

S A L M C L .

M Olweh Dduw yn ei gyflegr lén,  
sef ei ffurfaen nerthol,  
2 Molwch ef i'w gadernid llŷm,  
ac amlader grym rhagorol.  
3 Ar lais udgorn rhowch y mawl hyn  
ar nabyl, telyn, tympan.  
4 Molwch chwi ef â llawn glod glau,  
â thannau, pibell, organ.  
5 Ar y symbolau, molwch ef,  
a'r rhai'n â'u llef yn sein-gar :  
O molwch ef â moliant clau,  
ar y symbolau llafar.  
6 Holl bethau molent un Duw byth,  
fydd ynddynt chwŷth y bywyd ;  
Rhoent gyd-gerdd foliant i barhau :  
clodforwn ninnau hesyd.

T E R F Y N S A L M A U D A F Y D D .

26 11 55

E M Y N A U .

# EMYNAU.

*Veni Creator.*

**T**Y'r'd, Ysbryd Glân, i'n c'lonnau ni,  
A dod d' oleuni nefol.  
Tydi wyt Ysbryd Crist, dy ddawn  
Sy fawr iawn a rhagorol.

Llawenydd, bywyd, cariad pur,  
Ydynt dy eglur ddoniau,  
Dod eli n' llygaid fel i'th Saint,  
Ac ennaint i'n hwynabau.

Gwasgara di 'n gelynion trŵch,  
A heddwch dyro ini.  
O's T'wyfog i ni fydd Duw Nêr,  
Pob petifyd er daioni.

Dýsg in' adnabod y Duw Tâd,  
Y gwîr Fâb rhâd, a thithau,  
Yn un trag'wyddol Dduw i fod,  
Yr hynod dri Phersonau.

Fel y molianer, ym mhob oes,  
Y Duw a roes drugaredd,  
Y Tâd, y Mâb, y'r Ysbryd Glân,  
Da dadgan ei anrhynedd.

*Neu fel byn.*

**T**Y'r'd, Ysbryd Glân, trag'wyddol Dduw,  
Yr unrhyw â'r Tâd nefol,  
Yr unrhyw hefyd â'r Mâb rhâd,  
Duw cariad tangnafeddol.

Llewyrcha 'n c'lonnau ni â'r Râs  
Fel byddo gâs in' bechu,  
Ac i ni, mewn fancteiddrwydd rhîdd,  
Bob dydd dy wafanaethu.

Y Diddanydd wyt ti yn wîr  
Ym mhob rhyw hir orthrymder,  
Dy holl ddaioni di, a'th glôd,  
A thaftod ni adrodder.

Y Ffynnon i'r Llawenydd glân,  
Y gloywlwys Dân cariaodol,  
Ac i'r Enneiniad, mawr ei lês,  
Sy 'n rhoddi gwreis Ysbrydol.

Dy ddoniau di ýnt aml a dwys,  
Y rhai i'th Eglwys rhoddi.  
Ynghlonnau pur, dy Ddeddi ddiilys,  
Tydi â' th tîs 'lgrifenni.

Tydi addewaist ddyfsgu, Iôn,  
Dy weision i lefaru,  
Fel ym mhob mân y caffo 'n rhwydd  
Yr Arglwydd ei foliannu.

O Ysbryd glân, i'n c'lonnau ni,  
Y gwîr oleuni danfon;  
A hefyd zel tra fôm ni byw,  
I garu Duw yn ffyddlon.

Ein gwendid nertha di, O Dduw,  
(Mawr ydyw ein breuolder)  
I ddiawi, i'r bîd, na chwaith i'r cnawd,  
Na ffyddom wawd un amser.

Cîr ein gelynion yn eu hôl,  
Bydd di heddychol â ni.  
Gwnâ i bob dîn ein caru 'n bur,  
(Mael eglur a ffydd hynny.)

Ein T'wyfog wyt, O Arglwydd maw,  
Rhag maglau pob rhyw bechod,

A rhag llithro oddiwrthyt mwy,  
Cynhorthwy bydd in' parod.  
Dod fesur mawr o'th Râs yn rhwydd,  
O Arglwydd Dduw gorachaf,  
Diddanwch i ni felly bydd  
Yn y brawd-ddydd diwedda.

I ffoi ymbleidiau ceccreth câs,  
Dôd i ni râs, Dduw nefol.  
Dôd gariad, a thangnafedd mâu,  
Ym mhob rhyw wlâd Grist'nogol.

Attolwg i ti, dyro râd,  
Y Tâd, i ni adnabod,  
A'r Arglwydd Iesu, ei Fâb hael,  
Ac yn y nêf cael canfod,

A chyffesu, â pherffaith ffydd,  
Dydi bob dydd yn ddiau.  
Ysbryd y Tâd a'r Mâb wyt ti,  
Un Duw, ond tri Phersonau.

I'r Tâd, i'r Mâb, i'r Ysbryd da,  
Un gogyd a gogyfuvch,  
Bid moliant: hwn yw 'r gwir Dduw nêf,  
Ei enw ef bendithiwr.

A bid i'n hunig Arglwydd Dduw,  
Fod gwîw ganddo roi 'n hylwydd,  
I bob rhyw Gristion yn y bîd,  
Ei Ysbryd yn dragywydd.

*Tân Sant Ambros, neu, Te Deum.*

**T**Ydi (O Dduw) a folwn ni;  
addefwn di yn Arglwydd,  
Y ddaear oll, (drag'wydd Dâd)  
gwnâ it' addoliad hylwydd.  
Arnat ti holl Anglion nêf  
a rônt eu llêf heb dewi,  
Y nefoedd hefyd oddiar hyn,  
a'r nerthoedd sy 'n y rheini.

Cerub, a Seraphin, a ffydd  
yn llêfain beunydd attat,  
Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Saboth glân,  
fel hym y galwan' arnat.  
Nefoedd, a daear, ffydd yn llawn  
o'r wirddawn, a'th ogoianant.  
Yr Apostolion, hyfryd gôr,  
a rôn' it' ragor foliant.

Moliannus rîf y Prophwydi,  
sy 'th foli o'r dechreuaed,  
A'r Merthyrion, ardderchog lu,  
sydd i'th foliannu'n waftad.  
Dy Eglwys wîr Gatholig lân,  
(hon sydd ar dân trwy'r hollsyd)  
O Arglwydd, a'th addola di,  
